- If you live in certain areas of Wales, the vocational Welsh language route is extremely limited, and so parents, schools and students stay on at school and study A Levels, which sometimes is not the right route.
- We are aware of this and are keen to work with WG and Welsh language promotion bodies to change this.
- We welcome the review of Coleg Cymraeg Cenedlaethol and the establishment of the working group, to look at the possibility of a similar staffing scheme to CCC for FE as for HE. FE and HE are very different and so we are pleased that Barry Liles as an FE specialist is a part of this panel.

9. Leadership

Those who lead and teach in the further education (FE) and skills sector play a crucial role in serving people and employers in their communities and raising educational and skills levels –Welsh is a skills amongst a host of skills that FE supports, develops and maintains, thereby directly supporting both economic development and social mobility.

10. Education and Training

- **ITE and PGCE** – radical change and introduce a compulsory Welsh language element and language awareness part of the course (changing perception) – Welsh needs to be seen as a priority in literacy.
- **Dual professionalism** – the benefit in supporting workforce planning – can move across from schools to college (collaborative practice) as in place with shared learning (especially with digital and blended learning developments)
- **EWC** – FE lecturers and support staff as in schools are registered practitioners
- **Estyn** – FE is regulated by Estyn, 2 colleges received excellence this year

(Welsh language skills recognition – needs to be aligned and support workforce planning) Highlight demand and shortages

11. Young people

- According to 2011 census – at 16 people the number of people speaking Welsh compared to the 10-15 group significantly drops.
- Do they lose their language or not want to continue to use it?
- **Careers Wales, schools (English, Welsh and bilingual) and colleges have a crucial role to play in raising awareness and evidencing career paths with linguistic progression a key part of this advice.**

12. Employer engagement

Engage with employers - across all sectors to talk about their Welsh language skills needs? LMI is crucial to change. Colleges can support the delivery of

these needs and ensure that people are learning, developing and maintaining their Welsh/bilingual ability.

- Welsh language standards helping with the public sector under the Measure
- Health and Social care – supporting the ‘more than words’ strategy
- Must engage a new audience strategically – work with private sector (provider of services), retail, tourism and hospitality, business representative bodies – fsb, cbi, IOD -what skills are they looking for, and respond to these needs.

Evidence were the demand is and support links between education and training and skills providers (schools, colleges and WBL) to ensure a flow of people with these skills in the necessary areas coming through.

(similar research to WG report on identifying Welsh language skills needs in 8 sectors would be welcomed) – on the back of this, what plans are in place

- Role of the Regional Skills Partnerships – lightly touch on Welsh language skills
- WG Employability plan – reference Welsh language (when launched in 2017)
- Alignment across WG strategies and plans

13. Partnership

Colleges and schools – forum 14-19 was a welcome development that opened doors to cross sector collaboration between Welsh medium schools and colleges. It was just beginning to work, sadly funding cut and the partnerships came to an end. Both parties would benefit from a similar catalyst to reintroduce these partnerships.

14. Challenges

- Perception of Welsh language opportunities and progression is traditionally linked to compulsory education (not necessarily vocational)
- Welsh language not inclusive more exclusive – make it real for the whole of Wales – a sense of belonging and public support

- Need to engage new audiences (gain support from non Welsh speakers as well as new speakers)
- Changing perception of young people about Welsh as an employability skill

15. Opportunities

- Change in ITE and PGCE (like Basque model, all practitioners must have a certain level of Basque (North Wales police model) – (central Govt have a central bank of teachers who can be located as needed to support linguistic delivery)
- Work with Welsh language promotion bodies, Dysgu Cymraeg, Menterau and Urdd to promote a more positive image of the Welsh language and bilingual skills
- Careers Wales and Colegau Cymru to bridge the learner and employer links and highlight linguistic routes
- It's time to adapt operations of some Welsh language promotion bodies – to engage with a new audience (colleges) / the non Welsh speakers / the hidden speakers and create new speakers – create an inclusive feel to language learning

16. Conclusion

In order for this vision to be achieved we need to engage new audiences – FE as anchor institutions in communities in Wales can be that catalyst to this change. Collaboration and partnership working with new sectors to engage wider pan Wales support and relevance of the Welsh language to more will make that difference.

We are happy to be contacted to discuss these suggestions further and are committed to solutions and outcomes in this space.

1. Yn yr ymateb hwn, rydym am ganolbwyntio ar gyfieithu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai un o'i phrif amcanion yw creu gweithlu sydd â'r sgiliau priodol i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfieithwyr yn aelodau allweddol a phwysig o'r gweithlu hwnnw. Er mwyn gallu parhau i ddatblygu'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu yn effeithiol bydd angen buddsoddiad ariannol uwch o lawer na'r un presennol.

2. Yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, nodwyd cefnogaeth Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru i'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n darged heriol ac uchelgeisiol iawn y bydd gofyn am gydweithio effeithiol rhwng gwahanol gyrff, mudiadau a phartneriaid i'w wireddu. Bydd gan y Gymdeithas ei chyfraniad hithau i'w wneud.

Ond un peth yw gallu siarad Cymraeg, peth arall yw ei defnyddio yn naturiol ym mhob agwedd o fywyd. Mae'n rhaid i bobol hefyd allu darllen dogfennau ac ati yn y Gymraeg a llenwi ffurflenni Cymraeg. Golyga hyn y bydd gan gyfieithwyr rôl allweddol wrth annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg.

3. Mae cyfieithu yn rhan o 'Maes datblygu 5: Cefnogi' yn y Strategaeth, ac rydym yn falch o weld y "bydd buddsoddiad hirdymor yn y seilwaith hwn yn parhau'n flaenoriaeth er mwyn rhoi'r iaith ar sylfaen gadarn at y dyfodol".

Yn sicr, rydym yn awyddus i weld Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi yn y proffesiwn/diwydiant cyfieithu, a pharhau i gefnogi

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru gan mai ni yw'r corff sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol.

I gael gwybod rhagor am Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ewch i'n gwefan,

<https://www.cyfieithwyr.cymru/>.

4. Mae'r gwahanol amcanion a restrir ym 'Maes datblygu 5: Cefnogi' yn cwmpasu cyfieithu, cynlluniau corpws, geiriadura a therminoleg, ac adnoddau addysg, yn ogystal â pharhau i ddatblygu'r seilwaith technolegol a digidol (cyfieithu â chymorth cyfrifiadur, deallusrwydd artifisial (AI), technoleg adnabod llais, ac ati) a'r cyfryngau. Gan fod llawer o'r meysydd hyn yn cyd-blethu a chyd-berthnasu â'i gilydd, credwn fod angen dod â'r rhain i gyd o dan yr un to fel bod un corff yn gyfrifol am lunio a gweithredu strategaeth ar gyfer gwireddu'r amcan o gynnal seilwaith ieithyddol modern a sicrhau y gellir defnyddio'r Gymraeg mewn cynifer o gyd-destunau â phosib mewn oes gynyddol dechnolegol.

Dim ond trwy wneud hyn y credwn y gall Llywodraeth Cymru "arwain a gosod cyfeiriad yn y maes cynllunio ieithyddol ar gyfer y Gymraeg" yng nghyd-destun 'Maes datblygu 5: Cefnogi'.

5. Mae'n 40 mlynedd eleni ers sefydlu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Yn ystod y cyfnod hwnnw rydym wedi darparu arweiniad effeithiol a chadarn i'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu yng Nghymru. Y Gymdeithas a fu'n bennaf cyfrifol fod gan y proffesiwn seiliau mor gadarn a'i bod wedi datblygu fel y gwnaeth.

Gwnaethom hyn trwy:

- gynyddu ein haelodaeth i gynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;

- hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr trwy drefnu rhaglen amrywiol o weithdai, ac annog a hyrwyddo datblygu proffesiynol parhaus;
- cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
- cynnal a meithrin ein cysylltiadau â chyrff a sefydliadau eraill oddi mewn a'r tu allan i fyd cyfieithu;
- hyrwyddo a marchnata safonau a gwerthoedd proffesiynol y Gymdeithas a gwasanaethau ein haelodau.

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg/Saesneg. Mae ein haelodau'n gweithio yn y sector cyhoeddus, yn y sector preifat, ac yn unigolion sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain. At hynny, rydym hefyd yn ymwneud ag unigolion sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y proffesiwn.

6. Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru'n parhau mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu'r arweiniad angenrheidiol ac i adeiladu ar y gwaith y bu'n ei wneud ers cyfnod maith. Ond os ydym am lwyddo i wneud hynny bydd angen cynyddu'r buddsoddiad cyhoeddus ynddi. Bu lleihad o 31% yng ngrant y Gymdeithas yn ystod y cyfnod 2013–16 (pan ariannwyd y Gymdeithas gan Gomisiynydd y Gymraeg), sef toriad ariannol o £87,500 i £60,000. Mae'r toriad hwn yn fwy fyth wrth ystyried mai £97,269 oedd y grant yn 2012–13, ac mai £50,000 yw'r grant yn 2016–17. Arweiniodd hyn at golli un swydd yn y Gymdeithas.

Yn 2016–17 caiff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru grant gan Lywodraeth Cymru. Ein gobaith yw y bydd y trefniant hwn yn parhau am gyfnod hir iawn.

7. Byddai cynnydd yn y grant yn caniatáu i ni, yn y lle cyntaf, adfer nifer y staff i 3 fel y gallai'r Gymdeithas wireddu a gweithredu ei nod ac amcanion, sef cryfhau a phroffesiynoli'r maes cyfieithu, yn fwy effeithiol nac ar hyn o bryd. Byddai hyn yn ein galluogi i roi sylw manylach i sawl agwedd ar ein gwaith, gan gynnwys datblygiad proffesiynol yn ei wahanol agweddau (gan gynnwys gweithdai a fu'n un o lwyddiannau'n rhaglen waith), ymateb i ddatblygiadau technolegol er mwyn gwella effeithlonrwydd, ac ymateb i ofynion newydd ar gyfieithu a geir yn Safonau'r Gymraeg.
8. Roedd ein tystiolaeth i'r Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol yn gynharach eleni yn pwysleisio swyddogaeth bwysig cyfieithu wrth ddatblygu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Leol ac wrth weithredu Safonau'r Gymraeg. Roedd hefyd yn cynnig nifer o argymhellion a fyddai'n arwain at wireddu hynny ac yn dangos sut y gallai cyfieithu arwain y ffordd wrth i awdurdodau chwilio am ddulliau o gydweithio'n effeithiol. Dilynwch y ddolen hon, <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/newyddion>, ac ewch i 4 Ebrill 2016, i ddarllen y dystiolaeth honno.

Document is Restricted

1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi bod yn ymgychu ers hanner canrif a mwy dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid.

1.2. Croesawn ymrwymiad y Llywodraeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Cefnogwyd ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg gan y prif bleidiau yn y Cynulliad cyn yr etholiad a bu nifer fawr o ymgeiswyr o bob plaid yn ei chefnogi ynghyd â nifer fawr o bobl eraill ar hyd a lled y wlad.

1.3. Croesawn ymhellach sylw penodol y pwyllgor ar gynllunio'r gweithlu, un o'r prif themâu y codwyd yn ystod ein hymgyngoriad a thrafodaethau gyda grwpiau eraill wrth lunio ein dogfen weledigaeth 'miliwn o siaradwyr Cymraeg'.

1.4. Mae'n bwysig cofio bod tri nod yn rhan o'n dogfen weledigaeth, a ysbrydolodd darged y Llywodraeth ynghyd ag ennyn cefnogaeth drawsbleidiol, gan gynnwys cefnogaeth y Gweinidog Alun Davies AC, sef:

1. cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn
2. atal yr allfudiad a chynnal cymunedau ynghyd â sicrhau llwybrau i ddod â Chymry Cymraeg yn ôl i'w cymunedau
3. defnyddio'r Gymraeg ymhob rhan o fywyd er mwyn sicrhau mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol o'r crud i'r bedd

Mae angen gweld gweithredu pwrpasol er mwyn sicrhau cynnydd ar y nodau hyn er mwyn troi'r uchelgais yn realiti.

1.5. Mae cynllunio'r gweithlu, yn enwedig y gweithlu addysg, yn rhan allweddol bwysig o'r agenda. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r gwleidyddion yn anghofio am eu hymrwymiad i'r ddau nod arall o ran defnydd y Gymraeg ac atal yr allfudiad. Mae'r rhain hefyd yn hanfodol er mwyn cryfhau cyflwr yr iaith.

1.6. Rydym wedi cyflwyno pedwar adroddiad¹ i'r Llywodraeth ers mis Gorffennaf y llynedd, yn amlinellu agenda uchelgeisiol ond ymarferol. Ail-gyflwynwn y papurau hyn gyda'n hymateb; nid ydym yn bwriadu ail-adrodd cynnwys yr adroddiadau yn helaeth, ond erfyniwn ar y Llywodraeth i'w hystyried a'u gweithredu:

1. Miliwn o Siaradwyr Cymraeg: Gweledigaeth 2016 ymlaen
2. Cryfhau Hawliau i'r Gymraeg – Dogfen Ymgynghorol ynghylch Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
3. Iaith a Gwaith – Strategaeth Economaidd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
4. Buddsoddi er mwyn creu miliwn o siaradwyr Cymraeg

1.7. Yn ogystal, comisiynodd y Llywodraeth flaenorol sawl adroddiad gan arbenigwyr, ond ni weithredwyd nifer o'r argymhellion allweddol. Erfyniwn ar y Llywodraeth i weithredu'r adroddiadau a'r argymhellion allweddol a restrir yn atodlen 1 y ddogfen hon.

1.8. Credwn y dylai'r Llywodraeth ffurfio panel o arbenigwyr cynllunio ieithyddol, cynllunio'r gweithlu ac ystadegwyr er mwyn mireinio'r strategaeth iaith ddrafft.

1.9. Credwn y byddai'n fuddiol pe bai consensws ymysg nifer o bleidiau yn y Cynulliad ar y strategaeth hir dymor er mwyn sicrhau hirhoedledd y ddogfen a'i weithredu.

2. Conglfeini'r Strategaeth – Pobl a Gofodau

2.1. Credwn y dylai conglfeini unrhyw strategaeth fod yn unol â'r hyn a amlinellom yn ein dogfen weledigaeth 'miliwn'. Yn y ddogfen honno, pwysleisio "ddwy elfen: pobl a gofodau". Dywedom:

"Mae angen gwella sgiliau iaith ein pobl – ni ellid gwahanu tynged yr iaith o'r byd addysg a chynllunio'r byd gwaith."

"... mae angen datblygu a chryfhau cyd-destunau lle mai'r Gymraeg yw iaith naturiol y lleoliad – yn y gwaith, yn y cartref ac yn y gymuned."

2.2. Yn ogystal, dywedom:

"Er mwyn adfer iaith yn effeithiol mae angen adeiladu ar bedwar piler:

- a. Deddfwriaeth Ddigonol – gan gynnwys gofyn am fesurau megis sgiliau Cymraeg hanfodol ar gyfer rhagor o swyddi
- b. Cynllunio – cynllun gweithredu manwl a dealladwy i bawb er mwyn cyrraedd nod clir, gyda chymau clir ar y ffordd
- c. Adnoddau – faint sy'n cael ei fuddsoddi ac ym mha brosiectau
- d. Cefnogaeth a diddordeb y cyhoedd"

2.3. Ceir cynlluniau helaeth ynghylch sut i flaenoriaethu'r meysydd hyn yn ein dogfen 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg: Gweledigaeth 2016 Ymlaen'.

2.4. Ymhelaethwn ar yr angen i fuddsoddi'n ariannol yn y strategaeth yn adran 8 isod.

3. Targedau'r Strategaeth

3.1. Dylai'r targedau gyfateb i dri phrif nod y ddogfen 'miliwn o siaradwyr' a nodir ym mharagraff 1.2 uchod, a gefnogwyd gan Weinidog y Gymraeg a'r

Prif Weinidog. Yn ogystal, dylid edrych ar dargedau o ran cynyddu sgiliau pobl a gofodau lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith fel y nodir yn 2.1 uchod.

3.2. Cytunwn fod angen targedu creu miliwn o siaradwyr, ond credwn fod angen:

- i) is-dargedau bob degawd, neu'n ddelfrydol bob pum mlynedd, ar y ffordd i'r miliwn o siaradwyr;
- ii) defnyddio geiriad a diffiniad y Cyfrifiad o ran y gallu i siarad, er mwyn sicrhau cysondeb a meincnodi cynnydd yn erbyn y targedau yn ystyrlon;
- iii) mynegi'r targed fel canran yn ogystal â nifer o bobl er mwyn cymryd ystyriaeth o'r newid mewn poblogaeth;
- iv) anelu at darged uchelgeisiol erbyn 2041 sy'n rhoi hyblygrwydd i gynyddu'r targed ar gyfer 2051 ac, yn ogystal, rhoi mwy o sicrwydd bod twf yn nifer a chanran siaradwyr y Gymraeg yn ddigon i gyrraedd y miliwn erbyn 2050
- v) ystyried cysoni geiriad ac amseru 'arolwg defnydd iaith' y Llywodraeth fel bod modd monitro cynnydd bob pum mlynedd, yn enwedig o ystyried ansicrwydd am ddyfodol y Cyfrifiad.

3.3. Dylai'r Llywodraeth drafod union natur y targedau hyn gyda chynllunwyr iaith ac ystadegwyr.

3.4. Yn ogystal, dylid ystyried targedau o ran:

- i) defnydd dyddiol o'r Gymraeg;
- ii) nifer y cymunedau lle siaredir y Gymraeg gan 70% o'r boblogaeth;
- iii) nifer y cymunedau lle siaredir y Gymraeg gan 50% o'r boblogaeth;

- iv) nifer a chanran y boblogaeth sy'n defnyddio gofodau lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith
- v) canran a niferoedd sy'n gweithio drwy'r Gymraeg
- vi) addysg a hyfforddiant
- vii) cynllunio'r gweithlu
- viii) lleihau allfudo
- ix) cyfraniad pob adran a chyrrff eraill a ariennir ac a noddir gan Lywodraeth Cymru i nodau iaith y Llywodraeth
- x) defnydd iaith cyrrff megis byrddau iechyd ac awdurdodau lleol

3.5. Heb amheuaeth, mae'n hanfodol bwysig cael targedau ar gyfer y meysydd addysg a chynllunio'r gweithlu.

4. Addysg Gymraeg i Bawb – Beth sydd angen ei wneud?

4.1. Y tu hwnt i fynd i'r afael â'r nifer sy'n gadael cymunedau Cymraeg a Chymru, mae angen o leiaf 15,000 i 18,000 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol arnom bob blwyddyn dros gyfnod o 30 mlynedd er mwyn cyrraedd y miliwn.

4.2. Un o'r prif ffyrdd o sicrhau hyn fyddai cynhyrchu llawer iawn mwy o siaradwyr drwy'r gyfundrefn addysg – yn hynny o beth mae angen gweithredu ar ddwy lefel:

- i) ehangu'n sylweddol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg benodedig ar bob lefel o'r blynyddoedd cynnar i addysg bellach, addysg uwch a phrentisiaethau yn ogystal ag addysg i oedolion yn y gymuned; a
- ii) normaleiddio addysgu cyfrwng Cymraeg ym mhob sefydliad addysg presennol fel nad yw'r un sefydliad addysg yn amddifadu ein pobl ifanc o'r Gymraeg

4.3. Credwn fod angen cynllun cynhwysfawr yn y maes hwn, a fyddai'n cael ei gyhoeddi fel rhan o Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg newydd. Rydym yn falch bod y Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi cynllun gweithredu er mwyn paratoi'n iawn ar gyfer creu un cymhwyster Cymraeg i bob disgybl. Yn wir, mae ymrwymiad y Llywodraeth i gyflawni hyn yn cynnig cyfle mawr i wneud naid fawr ymlaen.

4.4. Cynllun Gweithredu – Addysg Cyfrwng Cymraeg i Bawb

4.5. Credwn mai'r egwyddorion canlynol ddylai fod yn sail i unrhyw gynllun gweithredu:

- i) hawl i'r Gymraeg i bob myfyriwr yng Nghymru – dylai pawb adael yr ysgol yn medru siarad a defnyddio'r Gymraeg yn hyderus;
- ii) un continwwm dysgu Cymraeg, un cwricwlwm Cymraeg ac un cymhwyster Cymraeg i bob disgybl, a fyddai'n disodli addysg 'ail iaith';
- iii) peth addysg cyfrwng Cymraeg i bawb: pob ysgol yng Nghymru i gynnig rhan gynyddol o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg;
- iv) cyfleoedd allgyrsiol cyfrwng Cymraeg;
- v) statws cyfartal i'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol ac allanol pob ysgol nad ydynt yn ysgolion penodedig Cymraeg;
- vi) gosod targed unigol i bob sefydliad addysg gynyddu canran y pynciau a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg

4.6. Camau Gweithredu Tymor Byr

4.7. Er mwyn cyrraedd prif darged y Llywodraeth, dylid cymryd y camau canlynol cyn gynted â phosibl:

- i) diweddarau'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn adlewyrchu targed miliwn o siaradwyr a thargedau eraill;

- ii) codi disgwyliadau a mireinio trefn arfarnu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gan sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn atebol ac yn cael eu galw i gyfrif os nad oes cynnydd;
- iii) sefydlu dulliau a thargedau statudol ar gyfer sicrhau cynnydd cyflym iawn yn nifer a chanran y gweithlu addysg sy'n medru dysgu drwy'r Gymraeg, ac sy'n gwneud hynny, o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg i oedolion yn y gymuned a phrentisiaethau;
- iv) sicrhau bod cyrff a ariennir ac a noddir gan Lywodraeth Cymru, megis y consortia addysg ac eraill, yn gweithredu er mwyn cyrraedd targedau'r Llywodraeth

4.8. O ystyried y cynnydd sylweddol sydd ei angen ym maes addysg, mae'n rhaid cymryd camau breision megis y canlynol:

- i) mesurau i normaleiddio dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg drwy'r holl gyfundrefn addysg a fyddai'n cynnwys: cynnydd cyflym o ran nifer a chanran y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob sefydliad addysg, gan gynnwys targedau statudol i ddysgu rhagor o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg penodedig.
- ii) mesurau i symud ysgolion ar hyd y continwwm o ddysgu rhagor o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys diddymu'r angen i ymgynghori er mwyn symud ysgolion ar hyd y continwwm o ran dysgu rhagor o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg neu at addysg gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg;
- iii) sicrhau bod cyllid ysgolion 21ain ganrif yn cefnogi targedau'r Llywodraeth o ran y Gymraeg ac addysg Gymraeg gan fabwysiadu'r rheol ni ddylai'r un ysgol na sefydliad addysg newydd agor gyda chanran is o addysg cyfrwng Cymraeg na 50%, neu drothwy uwch

mewn siroedd lle mae mwyafrif yr ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;

- iv) cynllunio i ddatblygu medrau'r gweithlu – gwneud cynnydd sylweddol, drwy amryw o ddulliau, yn nghanran y gweithlu addysg sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n dysgu drwyddi, gan gynnwys targedu adnoddau Cymraeg i Oedolion ar wella sgiliau'r gweithlu addysg.
- v) sefydlu'r hawl i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg cyflawn ar gyfer pob oedran dysgu;
- vi) ymestyn cyfrifoldeb Mudiad Meithrin er mwyn symud dros amser at addysg uniaith Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar a'r cyfnod sylfaen gyda nod tymor byr o ehangu'n sylweddol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar gan gynnwys ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- vii) cyflwyno'r cwricwlwm Cymraeg cyfun newydd yn 2018 ac un cymhwyster Cymraeg i bob disgybl erbyn 2021, gan ganiatáu symud yn gynt ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion arloesi a rhai siroedd sy'n awyddus i wneud hyn;
- viii) safoni categoreiddio ysgolion; a
- ix) ehangu canolfannau hwyrddyfodiaid a dulliau trochi er mwyn gwella sgiliau'r gweithlu addysg a disgyblion yn gyflym. Er enghraifft, mae diffyg darpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid yng Ngheredigion yn gyfrifol, yn ôl yr awdurdod, am y methiant i normaleiddio'r Gymraeg fel yr unig gyfrwng dysgu yn Ysgol Uwchradd Aberteifi.

4.9. Yn ogystal, dylai unrhyw gynllun ymwneud â'r meysydd canlynol:

Cwricwlwm ac Asesu

- i) gosod nodau dysgu a chynnydd clir yn seiliedig ar y cwricwlwm Cymraeg newydd

- ii) defnyddio cymedroli clwstwr Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a gwirio allanol i sicrhau nad yw disgyblion yn llithro'n ôl rhwng cyfnodau allweddol; a
- iii) sicrhau darpariaeth briodol i bob disgybl, hyd yn oed os oes symud o'r cyfrwng Cymraeg i gyfrwng dwyieithog neu Saesneg

Cymwysterau

- i) un cymhwyster cyfun Cymraeg i bob disgybl i fod ar gael o fis Medi 2018 ac yn weithredol i bawb o 2021 ymlaen

Statws

- i) Mesurau perfformiad ysgolion
- ii) Profion Cymraeg i bob disgybl ym mhob cyfnod allweddol
- iii) Profion Darllen Cymraeg ym mhob cyfnod allweddol fel rhan o'r fframwaith llythrennedd
- iv) Cynlluniau Datblygu Ysgol i esbonio sut bydd ysgolion traddodiadol cyfrwng Saesneg a ffrydiau Saesneg yn gwella'r ddarpariaeth o ran: darparu rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; ac ethos Cymraeg e.e. cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r iaith

Gweithlu

- i) Cynllunio'r Gweithlu Addysg a gwella sgiliau – mae angen strategaeth gyfannol sy'n cynnwys ystyriaeth i'r Gymraeg ar bob lefel gan gynnwys adnabod y bylchau a'r meysydd mwyaf argyfyngus; cymhelliannau ariannol ac eraill i ymuno â'r gweithlu addysg; a chydabod bod cyfyngiadau i'r cynllun sabothol a bod angen mentrau eraill i sicrhau gwelliant sylweddol
- ii) Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Ysgol yn nodi anghenion a darpariaeth hyfforddiant i ddatblygu'r Gymraeg

- iii) Datblygu rhaglen hyfforddiant mewn swydd gynhwysfawr i gryfhau ac ymestyn sgiliau athrawon i ddysgu Cymraeg ac i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm
- iv) Datblygu rhaglenni Cymraeg i'r teulu gan dargedu rhieni a gofalmwr di-Gymraeg a phlant yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1
- v) Sicrhau bod pob cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru yn cynnwys targedau statudol ar gyfer ymestyn medrau dysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg
- vi) Ystyried ehangu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym maes cynllunio'r gweithlu gan adeiladu ar eu tystysgrif sgiliau athrawon
- vii) Ehangu'r cynllun cam-wrth-gam er mwyn sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer ymarferwyr y maes sy'n gweithio drwy'r Gymraeg

4.10. Targedau Addysg Posibl

4.11. Er mwyn cyrraedd targed y Llywodraeth, mae angen gosod targedau addysg a fyddai'n creu'r 15,000 i 18,000 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol bob blwyddyn.

4.12. Credwn felly y dylid cryfhau ac adeiladu ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg bresennol.

4.13. Bydd rhaid adolygu strwythur a sail gyfreithiol Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg er mwyn sicrhau bod y mesurau a'r targedau mwy uchelgeisiol hyn yn cael eu rhoi ar waith.

4.14. O ran targedau ehangach er mwyn normaleiddio'r Gymraeg yn yr holl gyfundrefn addysg, dylid ystyried targedau a fyddai nid yn unig 'ymateb i'r galw', ond hefyd arwain a chreu'r galw.

4.15. Credwn felly dylai'r Llywodraeth sefydlu targedau fel y ganlyn:

Ymhen y pum mlynedd nesaf, dylid:

- Sicrhau bod hanner athrawon ac ymarferwyr addysg newydd gymhwyso yn medru dysgu drwy'r Gymraeg, i fyny o oddeutu 20% ar hyn o bryd. Dylid hwyluso hyn drwy gynnig i bobl ddi-Gymraeg gymhwyso drwy ariannu ac integreiddio cyrsiau dysgu Cymraeg dwys a gloywi iaith yn y broses hyfforddi;
- Sicrhau bod pob athro sy'n siaradwr Cymraeg, ond nad ydynt yn datgan eu bod yn gallu dysgu drwy'r iaith, yn derbyn hyfforddiant fel eu bod yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Sicrhau bod pob athro cynradd sydd gyda chymhwyster TGAU ail iaith yn derbyn hyfforddiant fel eu bod yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Targedu cyrsiau dysgu a gloywi ychwanegol Cymraeg i Oedolion ar y gweithlu addysg newydd gymhwyso yn ogystal â hyfforddiant i rai sydd eisoes yn y gweithlu;
- Sefydlu amod ar arian cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif – ni ddylai'r un ysgol na sefydliad addysg newydd agor gyda chanran is o addysg cyfrwng Cymraeg na 50%, neu drothwy uwch mewn siroedd lle mae mwyafrif yr ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;
- Symud tuag at gyfnod meithrin cyfrwng Cymraeg yn unig drwy ehangu cyfrifoldeb Mudiad Meithrin;
- Gosod lleiafswm o 10% o bynciau cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r sector addysg (heblaw am y cyfnod cyn-ysgol, sylfaen ac addysg gynradd lle bydd targedau uwch);
- Sicrhau bod rhaglen cymhwyso pob gweithiwr addysg yn cryfhau sgiliau cyfathrebu Cymraeg a bod modiwlau o fewn pob cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Sefydlu cymhelliannau cytundebol, ariannol ac eraill er mwyn sicrhau bod pobl sy'n cymhwyso i ddysgu drwy'r Gymraeg yn aros yng Nghymru, gan ystyried ehangu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y maes
- Ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i addysg bellach a holl addysg ôl-16
- Darparu 10% o brentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Darparu 10% o gyrsiau addysg i oedolion yn y gymuned drwy'r Gymraeg
- Sicrhau bod Cymraeg i Oedolion yn creu o leiaf 4,000 o siaradwyr Cymraeg rhugl (lefel uwch) newydd bob blwyddyn drwy dargedu effeithiol

Ymhen y deng mlynedd nesaf, dylid:

- Sicrhau bod holl athrawon ac ymarferwyr addysg eraill newydd gymhwyso yn medru dysgu drwy'r Gymraeg, gan gynnig i bobl ddi-Gymraeg gymhwyso drwy ariannu ac integreiddio cyrsiau dysgu a gloywi Cymraeg yn y broses hyfforddi
- Gosod lleiafswm o 25% o bynciau cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r sector addysg (heblaw am y cyfnod cyn-ysgol, sylfaen ac addysg gynradd lle bydd targedau uwch)
- Sefydlu amod ar arian cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif, neu drwy reoliadau, na ddylai ysgol na sefydliad addysg newydd gael ei hagor gyda llai na 70% o'r addysg drwy'r Gymraeg
- Cynnal y cyfnod meithrin drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig
- Darparu 25% o brentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

- Darparu 25% o gyrsiau addysg i oedolion yn y gymuned drwy'r Gymraeg
- Sicrhau bod Cymraeg i Oedolion yn creu o leiaf 7,000 o siaradwyr Cymraeg rhugl (lefel uwch) newydd bob blwyddyn

Ymhen yr ugain mlynedd nesaf, dylid:

- Sicrhau addysg gynradd gyfan gwbl gyfrwng Cymraeg i bob plentyn
- Gosod lleiafswm o 50% o bynciau cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r sector addysg (heblaw am y cyfnod cyn-ysgol, sylfaen ac addysg gynradd lle bydd targedau uwch)
- Darparu 50% o brentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Darparu 50% o gyrsiau addysg i oedolion yn y gymuned drwy'r Gymraeg
- Sicrhau bod Cymraeg i Oedolion yn creu o leiaf 10,000 o siaradwyr Cymraeg rhugl (lefel uwch) bob blwyddyn

Ymhen y tri deg mlynedd nesaf, dylid:

- Sicrhau addysg gyfan gwbl Gymraeg ym mhob rhan o'r sector addysg
- Sicrhau bod yr holl brentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Darparu'r holl gyrsiau addysg i oedolion yn y gymuned drwy'r Gymraeg
- Sicrhau bod Cymraeg i Oedolion yn creu o leiaf 13,000 o siaradwyr Cymraeg rhugl (lefel uwch) bob blwyddyn

5. Cynllunio'r Gweithlu

5.1. Nodwn fod angen mesurau i gynllunio'r gweithlu llawer iawn yn well. Roedd hynny'n neges glir a ddaeth allan o'r broses o lunio ac ymgynghori ar ein dogfen 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'. Rydym wedi argymhell deddfu er mwyn gosod proses yn ei lle er mwyn datrys y problemau hyn yn ogystal â

mentrau eraill megis ariannu prosiect Marchnad Lafur Gymraeg Mentrau Iaith Cymru.

5.2. Yn ein hymateb i'r strategaeth, hoffem roi sylw penodol i'r gweithlu addysg gan ei fod yr un o'r meysydd pwysicaf i'w cynllunio'n iawn os ydym am gyrraedd y targed 'miliwn'. Yn hyn o beth, mae'n bwysig nodi casgliadau adroddiad Furlong ynghylch y sefyllfa:

"... [mae'r] cymhellion ariannol a gynigir ar hyn o bryd i ymgeiswyr AGA yn fwy hael mewn rhai achosion yn Lloegr nag yng Nghymru. O ganlyniad, mae arweinwyr rhaglenni'n dweud bod rhai o'u hymgeiswyr gorau yn y diwedd yn dewis ymadael â Chymru i hyfforddi. Bydd llawer wedyn yn dewis cymryd swydd addysgu yn Lloegr hefyd."

Felly, mae system ar hyn o bryd, yn cyfrannu at allfudo rhai pobl o'r system addysg yng Nghymru. Allwn ni ddim fforddio colli pobl a allai fod yn dysgu drwy'r Gymraeg.

5.3. O ran y blynyddoedd cynnar, mae'n rhaid ehangu cynllun 'Cam wrth Gam' a gwneud y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer ymarferwyr yn y maes fel bod modd, dros amser, symud at ddarpariaeth uniaith Gymraeg.

5.4. Mae oddeutu 1,500 o athrawon newydd yn cael eu hyfforddi yng Nghymru bob blwyddyn ac mae tua 83% o'r rhai sy'n cael eu hyfforddi yn dod o Gymru, sy'n golygu eu bod nhw eu hunain wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol. Yn ôl ystadegau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru roedd 33.3% (12,292) o'r athrawon ar eu cofrestr ym mis Mawrth 2016 yn 'siaradwyr Cymraeg', ond dim ond tua 27% sy'n datgan eu bod yn gallu dysgu drwy'r iaith, gyda chanran sylweddol llai yn dysgu drwy'r iaith (cyn lleied â 18% yn y sector uwchradd). Felly, mae seiliau cryf eisoes yn eu lle ar gyfer gwneud cynnydd cyflym yn nifer yr ymarferwyr addysg sy'n medru dysgu drwy'r Gymraeg ac sy'n gwneud hynny.

5.5. Er bod targedau gan Lywodraeth Cymru o ran cyfanswm y bobl sy'n cael eu hyfforddi drwy gynlluniau Addysg Gychwynnol Athrawon, nid oes targed o ran y ganran sy'n medru dysgu drwy'r Gymraeg. Mae'n rhaid sefydlu targedau i gynyddu'n sylweddol y ffigurau hyn gyda mentrau a chymhellion ariannol eraill er mwyn cynorthwyo sefydliadau i gyrraedd y targedau.

6. Hawliau – Cryfhau Mesur y Gymraeg

6.1. Rydym ar ddeall bod y Llywodraeth yn bwriadu cryfhau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn dilyn yr ymgynghoriad hwn ynghylch y Strategaeth Iaith. Rydym wrthi'n llunio ein polisi terfynol ynghylch cryfhau'r Mesur, ond mabwysiadwyd y polisi canlynol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol eleni:

"Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:

- i) fwriad Llywodraeth Cymru i ddechrau ar y broses o gryfhau Mesur y Gymraeg ddechrau'r flwyddyn nesaf;*
- ii) er gwaethaf cymhlethdod y gyfundrefn Safonau a'r manau gwan amlwg ynddynt, bod nifer o gryfderau i'r gyfundrefn; a*
- iii) bod allanoli a phreifatiddio yn ei gwneud yn holl bwysig bod y ddeddf iaith yn cwmpasu'r sector breifat gyfan.*

Felly, creda'r Cyfarfod Cyffredinol y dylid cryfhau Mesur y Gymraeg, ac adeiladu ar y gyfundrefn Safonau, drwy:

- i) Sefydlu hawliau cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod cyrff yn gwella yn barhaus o ran darparu gwasanaethau, llenwi'r manau gwan anochel a ddaw yn sgil y Safonau, a sicrhau bod hawliau pobl i'r Gymraeg yn ddealladwy*
- ii) Ymestyn y Mesur i weddill y sector breifat er mwyn normaleiddio a chryfhau defnydd y Gymraeg ym mhob rhan o fywyd*

** gan enwi ar wyneb y Mesur fanciau, archfarchnadoedd, mân-werthwyr a chwmnïau sydd â throsiant uwch na ffigwr benodol fel blaenoriaethau tymor byr*

** sefydlu grym a dyletswydd ar wyneb y Mesur i ychwanegu holl gyrff y sector breifat fel categorïau o berson y gellid eu hychwanegu at Atodlen 8 y ddeddfwriaeth*

iii) Sicrhau annibyniaeth penodiad y Comisiynydd gan y Cynulliad ac annibyniaeth cyllido oddi wrth y Llywodraeth

iv) Sefydlu Cyngor y Gymraeg a chanddo gyllideb a chyfrifoldeb i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg, gan ddiddymu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a Phanel Cynghori'r Comisiynydd

v) Fesurau i sicrhau mwy o swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a chynllunio'r gweithlu'n llawer gwell; yn ogystal â chymryd camau i hyrwyddo i gyflogwyr bod y gosodiad, wrth hysbysebu swydd: 'Cymraeg yn Hanfodol i'r Swydd Hon' yn hollol gyfreithiol, ar ôl asesu anghenion y swydd.

vi) Fesurau i amddiffyn a hybu gweithredu mewnol uniaith Gymraeg a gofodau eraill uniaith Gymraeg

vii) Ddyletswydd i enwi adeiladau, tai, lleoedd a strydoedd yn Gymraeg mewn datblygiadau, ynghyd â diogelu enwau Cymraeg sy'n bodoli eisoes"

6.2. Gresynwn nad yw'r Llywodraeth wedi sicrhau bod Safonau'r Gymraeg wedi eu gosod ar gwmnïau telathrebu bron i chwe blynedd ers pasio Mesur y Gymraeg, er gwaethaf ymrwymiad yn y Strategaeth Iaith flaenorol i'w gweithredu erbyn mis Ebrill 2017. Mynnwn amserlen ar gyfer gweithredu yn y maes hollbwysig yma cyn gynted â phosibl.

6.3. Ni ddylai cynyddu'r pwyslais ar hyrwyddo'r Gymraeg ddod ar draul y gwaith hollbwysig o reoleiddio. Cytunwn fod angen sefydlu corff i hyrwyddo'r Gymraeg, ond ni dylai hynny olygu llai o wariant ar swydd Comisiynydd y Gymraeg, ac ni ddylid ei ddefnyddio chwaith fel esgus i wanhau Safonau'r Gymraeg.

7. Meysydd sydd ar goll yn y strategaeth

7.1. Mae angen i'r strategaeth ymdrin â'r canlynol, neu roi rhagor o bwyslais arnynt:

- i) Cynnwys lleiafrifoedd ethnig;
- ii) Taclo tlodi;
- iii) Yr economi, gan gynnwys ei heffaith ar leihau allfudo a chynyddu defnydd o iaith gwaith
- iv) Pobl ifanc;
- v) Technoleg a Digidol; a
- vi) Symudoledd Poblogaeth

8. Buddsoddi yn y Strategaeth

8.1. Er mwyn i'r strategaeth lwyddo, mae'n rhaid cael buddsoddi digonol. Rydym wedi amlinellu ein cynigion yn ein dogfen "Buddsoddi er mwyn creu miliwn o siaradwyr Cymraeg".

8.2. Yn gryno, rydym wedi galw am osod nod a dyddiad targed i gynyddu dros amser ganran y gyllideb ar brosiectau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg o 0.16% o'r gyllideb i 1%. Fel cyfanswm, credwn fod angen, dros amser, dros £100 miliwn y flwyddyn er mwyn rhoi cynlluniau digonol ar waith yn iawn.

8.3. Yn ogystal, dylai'r strategaeth osod nod i bob corff cyhoeddus fuddsoddi 1% o'u cyllidebau mewn mentrau i hyrwyddo'r Gymraeg

8.4. Credwn fod angen i gyllidebau prif-ffrwd gael asesiad o'u heffaith ar y Gymraeg a gweithredu i sicrhau gwelliant yn sgil hynny. Er enghraifft, mae'n rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ganolog i'w hymrwymiad i ddarparu 30 awr o ofal plant am ddim, yn ogystal â sicrhau canran llawer uwch o'i 100,000 o brentisiaethau yn rhai cyfrwng Cymraeg.

Atodlen I: Adroddiadau Allweddol sydd angen eu gweithredu

1. Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith (2013)
2. Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd
3. Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4
4. Casgliadau'r Cynhadledd Fawr – Iaith fyw: dweud eich dweud
5. Adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol
6. Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Pwyllgor Addysg, Senedd Cymru)
7. Fframwaith strategol olynol Mwy na geiriau.... ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol
8. Mwy na geiriau – Fframwaith Strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieched, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.
9. Fy Ieched, Fy Hawl – Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg (2014)

Argymhellion Allweddol nas gweithredwyd

1. Grantiau – Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd:

"Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i fusnesau sy'n cael grant gan Llywodraeth Cymru ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog. Dylai unrhyw arwyddion neu ddeunyddiau hysbysebu sy'n gysylltiedig â phrosiect sy'n derbyn cymorth grant fod yn ddwyieithog."

2. Addysg Gymraeg i Bawb – Adroddiad yr Athro Sioned Davies (2013):

"Argymhelliad 15

Llywodraeth Cymru i:

gosod targedau i sicrhau mwy o ddysgu cyfrwng Gymraeg ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Saesneg."

3. Buddsoddi rhagor o arian yn y Gymraeg – Cynhadledd Fawr

"1.12

Cyllid ac adnoddau

Un thema gyffredinol, a chwbl allweddol, a fu'n rhedeg drwy'r holl gyfraniadau ym mhob cyfrwng oedd mater adnoddau. Nodwyd droeon, fod angen adnoddau digonol, gan gynnwys adnoddau cyllidol digonol, i weithredu'n effeithiol a dwyn y maen i'r wal.

Cafwyd galwadau cyson gydol y broses ar i'r Llywodraeth gynyddu ei buddsoddiad ariannol yn y Gymraeg er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol. "

4. Hawl i wasanaethau ar ffonau symudol yn Gymraeg – Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru (2012 – 2017)

Pwynt gweithredu 34 y strategaeth: *"Gwneud safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gwmnïau'r sector preifat sy'n rhan o gwmpas Mesur y Gymraeg, gan gynnwys cwmnïau telathrebu, gweithredwyr bysiau a threnau, a chwmnïau cyfleustodau..."*

5. Cynnal Cymunedau Cymraeg – Grŵp Gorffen a Gorchwyl Llywodraeth Cymru: "Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith" (2013)

Hybu datblygiad Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin fel dinas–ranbarthau

Cysoni darpariaeth addysg 3–14 oed ledled Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cytuno ar dargedau i ehangu gweithlu dwyieithog a gweithredu mewnol dwyieithog gydag asiantaethau perthnasol o fewn i gwmpas Safonau'r Iaith Gymraeg

Cynyddu nifer y sefydliadau sy'n gweithredu'n fewnol yn Gymraeg

Cynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg fel cyfrwng gwaith a gweinyddu

Cynyddu hyder gweithwyr i ddefnyddio mwy o'u Cymraeg

Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau digonol i sefydlu hyd at 6 o Gynlluniau Hybu'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig.

Atodlen II. Blaenoriaethau Polisi: Prif Alwadau Polisi o'r ddogfen "Miliwn o Siaradwyr Cymraeg"

1. Deddfu er mwyn cynorthwyo gweithredu argymhellion adroddiad Yr Athro Sioned Davies ynghylch dysgu'r Gymraeg gan sefydlu un continwrm dysgu'r Gymraeg, peth addysg cyfrwng Cymraeg i bawb a gosod targedau statudol eraill er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

2. Ymrwymo i barhad y Coleg Cymraeg yn y tymor hir ac ymestyn ei gyfrifoldebau , gan gynnwys mesurau i annog myfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau drwy'r Gymraeg, megis sefydlu amod ariannol drwy Gyngor

Cyllido Addysg Uwch Cymru i sicrhau cynnal a chynyddu'r nifer o neuaddau Cymraeg eu hiaith boed hynny drwy brifysgolion neu'r Coleg Cymraeg.

3. Cyflwyno Bil Cartrefi Fforddiadwy i Bawb a fyddai'n cynnwys nifer o fesurau i wneud y stoc tai presennol yn fforddiadwy i bobl leol, ynghyd â gwreiddio'r gyfundrefn ar anghenion lleol, gan gynnwys sefydlu'r hawl i rentu, rhoi'r cyfle cyntaf i bobl leol brynu tai a sefydlu mai seilio datblygiadau ar anghenion lleol ddylai fod y prif egwyddor sy'n arwain ein polisïau tai ac eiddo.
4. Sefydlu Cronfa Ariannu Cynnal Gwasanaethau ac Adnoddau Cymunedol sy'n cynnig symiau cymharol fach o arian i grwpiau cymunedol er mwyn cynnal gwasanaethau a gofodau lle mai'r Gymraeg yw prif iaith y lleoliad neu grŵp
5. Sefydlu darlledwr aml-blattform Cymraeg newydd
6. Diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn ymestyn ei sgôp, sefydlu hawl cyffredinol i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg a gwella'r broses o osod Safonau ar gyrff Gweithle
7. Cyflwyno Bil Cynllunio'r Gweithlu a fyddai sefydlu targedau a chyfrifoldebau clir er mwyn sicrhau cyflenwad cynyddol o weithwyr Cymraeg, gan adeiladu ar y farchnad lafur Gymraeg a arweinir gan Fentrau Iaith Cymru
8. Dylai unrhyw ad-drefnu Llywodraeth leol gynyddu'r nifer o awdurdodau sy'n gweithio drwy'r Gymraeg gan osod cymalau mewn deddfwriaeth er mwyn sicrhau hynny

Atodlen 3: Cynllunio'r Gweithlu Addysg – Cyrraedd Miliwn o Siaradwyr Cymraeg Prif Gasgliadau ac Argymhellion

Cyflwyniad

- 1.1. Nodwyd ar ddechrau'r cyfarfod bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i: disodli'r cymwysterau 'Cymraeg Ail Iaith' gydag un cymhwyster

Cymraeg i bob disgybl erbyn 2021; a • creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

1.2. Cafwyd trafodaeth ddofn dwy awr rhwng asiantaethau addysg ac arbenigwyr iaith ynghylch y newidiadau sydd eu hangen i'r gweithlu addysg yn sgil y datblygiadau polisi uchod. Ceir isod nifer o brif gasgliadau'r drafodaeth.

Casgliadau / Argymhellion

2. Pwyntiau Cyffredinol

2.1. Argymhellwyd bod angen buddsoddi arian sylweddol yn addysgu'r gweithlu addysg er mwyn arbed arian yn y tymor hir.

2.2. Nodwyd bod angen gweithredu ar dair elfen bwysig:

(i) Targedu cyfnodau critigol – blynyddoedd cynnar, trosglwyddiad o'r gynradd i'r uwchradd gan sicrhau dilyniant di-dor, a rhaglenni teulu ar gyfer y cyfnod sylfaen a blynyddoedd 1 a 2.

(ii) Datblygu defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu –nodwyd bod awr y dydd o addysg yn y Fasgeg mewn ysgolion dwyieithog ac o leiaf 40% o ddysgu ar draws y cwricwlwm drwy'r Fasgeg yng Ngwlad y Basg.

(iii) Ymestyn y rhaglen datblygu sgiliau athrawon gan arwain at achrediad Tystysgrif Sgiliau. Nodwyd bod angen denu mwy o athrawon, a bod awdurdodau Gwlad y Basg yn rhoi o leiaf blwyddyn ar y tro er mwyn i athrawon gwella eu sgiliau fel rhan o gynllun sabothol.

2.3. Dywedwyd yn hytrach na gwneud mwy o ymchwil, bod angen dilyn 7 cam:

(i) Gwella dealltwriaeth o ddysgu iaith –newid agweddau ac ysbrydoli

(ii) Datblygu rhaglen hyfforddiant mewn swydd gydag athrawon yn gweithio mewn timau ar draws ardal mewn cydweithrediad â thimau athrawon bro

(iii) Rhyddhau Staff ar gyfer hyfforddiant ar gyfer rhaglen cynllun sabothol diwygiedig

(iii) Targedu gweithlu yfory –sicrhau bod pob rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru yn cynnwys paratoad ar gyfer dysgu a/neu cefnogi'r Gymraeg.

(iv) Sefydlu rhwydwaith o ysgolion 'iaith ar waith' –lle mae arolwg mewnol 'teulu'r ysgol' o ran beth sydd ei angen er mwyn darparu cwricwlwm drwy gyfrwng yr iaith, yn ogystal â sicrhau trochi yn y cyfnod sylfaen a 40% o'r cyfnod sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg

(v) Rhannu deunyddiau – er mwyn sicrhau bod modd dysgu drwy'r iaith

(vi) Gwneud Cymhwyster ieithyddol yn hanfodol i athrawon newydd, a chynnig cymhwyster cyffelyb ar gyfer athrawon mewn swydd – er enghraifft y Tystysgrif Sgiliau Cymraeg sydd ar waith mewn Addysg Uwch. Sicrhau bod y Gymraeg yn un o ddangosyddion perfformiad Estyn.

(vii) Codi medrusrwydd iaith a llythrennedd disgyblion – lledaenu'r ddealltwriaeth o ddwyieithrwydd fel ffordd o godi safonau llythrennedd yn gyffredinol.

2.4. Mynegwyd pryder am y ffaith bod swyddogion ac asiantaethau yn oedi ar y broses o weithredu newidiadau angenrheidiol: ai 'oedi' yw ystyr 'pwyll'? Dywedwyd bod angen chwyldroi'r gyfundrefn o ran cynllunio'r gweithlu, nid chwarae ar yr ymylon.

2.5. Nodwyd na ddylai fod angen gradd B mathemateg i fod yn athro Cymraeg. Yn lle, dylid rhoi'r sgil i athrawon wrth iddynt ddechrau gweithio.

2.6. Awgrymwyd y dylid adfer cynllun llythrennedd CILT Cymru a arweiniodd at adrannau iaith sefydliadau addysg yn cydweithio gyda'i gilydd. Argymhellwyd y dylid creu adrannau ieithoedd a fyddai'n golygu cydweithio rhwng athrawon iaith.

2.7. Dywedwyd y dylid adfer yr arfer o hyrwyddo'r iaith ar draws y cwricwlwm ac awgrymwyd bod angen blaenoriaethu dau neu dri maes megis iechyd a gofal cymdeithasol, ABCh – Addysg bersonol a chymdeithasol, technoleg gwybodaeth ac addysg gorfforol.

2.8. Dywedwyd y dylid targedu'r oddeutu 6% o'r gweithlu sy'n medru'r Gymraeg ond ddim yn medru dysgu drwy'r iaith er mwyn sicrhau enillion cyflym.

2.9. Mynegwyd pryder bod pob un athro Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn gorfod ceisio dyfeisio cwrs iaith eu hunain, a bod angen mwy o arweiniad cenedlaethol ar gynnwys y cwrs a chydweithio ar draws ardaloedd a rhanbarthau.

2.10. Teimlwyd ei fod yn bwysig bod yr adnoddau ychwanegol a gafodd Cymraeg i Oedolion yn y gyllideb eleni ar gael i'r gweithlu addysg (gan gynnwys y gweithwyr hynny nad ydynt yn ymarferwyr dosbarth), yn ychwanegol at y gyfran o'r £20 miliwn ychwanegol ar gyfer gwella safonau ysgolion a dylai fynd at wella safonau o ran y Gymraeg.

2.11. Mynegwyd pryder bod cynllun 'Cam-wrth-gam' y Mudiad Meithrin wedi colli arian sylweddol er ei fod yn enghraifft brin o ymdrech benodol i gynllunio'r gweithlu addysg.

2.12. Cytunwyd bod gwir angen gwella dealltwriaeth consortia a gweision sifil o'r Gymraeg, a bod dirfawr angen cyrsiau ymwybyddiaeth iaith ar nifer fawr ohonynt.

2.13. Dywedwyd bod dulliau trochi yn allweddol er mwyn sefydlu'r un continwwm dysgu Cymraeg yn iawn a normaleiddio'r Gymraeg ym mhob sector.

2.14. Awgrymwyd y dylid penodi pencampwyr iaith ar gyfer pob ysgol gynradd yn ogystal â phencampwr ardal/bro.

2.15. Awgrymwyd clustnodi 2 neu 3 o'r diwrnodau hyfforddiant mewn swydd statudol pob blwyddyn o 2017/18 a 2018/19 ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a chefnogi Cymraeg ar draws y cwricwlwm, datblygu cyfleoedd allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Gymraeg fel pwnc.

1 Pwysleisiwyd pwysigrwydd adfer ac ymestyn rôl y gwasanaeth athrawon bro i gynnwys elfen gref o hyfforddiant ar gyfer athrawon yn y dosbarth, datblygu rhaglenni teulu a llunio rhaglen hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion dosbarth a staff ategol.

2 Cynllun Sabothol

3.1. Roedd teimlad cryf y dylid diwygio nod a natur y Cynllun Sabothol, er mwyn bod yn glir mai ei rôl yw sicrhau bod gweithwyr addysg ac athrawon yn cyrraedd rhuglder fel modd iddynt ddysgu drwy gyfrwng yr iaith wedi'r cwrs. Mae angen targedu mwy effeithiol ar athrawon yn y blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd er enghraifft.

3.2. Nodwyd, er llwyddiannau'r cynllun sabothol o ran cyflwyno ail iaith, mai nid dyna'r nod sydd ei eisiau. Dywedwyd bod nifer o gynlluniau er mwyn cyrraedd lefelau mynediad a sylfaen yn y Gymraeg, ond nad ydynt yn addas er mwyn gwireddu amcanion a newidiadau polisi'r Llywodraeth. Dywedwyd bod angen anelu at lefel canolradd neu uwch, a bod athrawon sy'n mynd ar y cynlluniau presennol yn mynnu bod angen un cwrs arall arnynt er mwyn bod yn rhugl.

1 Nodwyd y buodd Coleg Hyfforddi Athrawon yn y Barri yn rhoi blwyddyn gyfan i'r gweithlu er mwyn sicrhau eu bod yn gallu dysgu drwy'r Gymraeg. Buodd cynllun tebyg yng Ngwynedd a ddarparwyd dwy flynedd er mwyn sicrhau sgiliau Cymraeg. Nodwyd gyda phryder y ffaith bod y cynlluniau dwys hyn wedi cael eu disodli, a bod gan y cynllun hwnnw ddisgwyliadau cymharol uchel gan ystyried cyn lleied o fewnbwn a ddarperir. Teimlwyd hefyd ei fod yn bwysig bod mwy o bobl yn cwblhau cyrsiau o'r fath.

2 Blynyddoedd Cynnar

4.1. Nodwyd pwysigrwydd y cyfnod cyn oed ysgol o ran cynllunio twf a normaleiddio addysg cyfrwng Cymraeg i bawb. Nododd nifer o siaradwyr pa mor allweddol bwysig yw'r Mudiad Meithrin. Nodwyd bod 86% o'r rhai sy'n mynychu cylchoedd meithrin yn mynd ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg. Yn hynny o beth, dywedwyd ei fod yn allweddol bwysig bod addewid y Llywodraeth o ofal plant 30 awr am ddim yn prif-ffrydio'r Gymraeg.

1 Pwysleisiwyd bod angen buddsoddiad yng ngweithlu'r blynyddoedd cynnar a bod angen mwy o gydnabyddiaeth ohono yn strategaeth iaith y Llywodraeth.

2 Addysg Gychwynnol Athrawon

5.1. Argymhellwyd na ddylid achredu canolfan ar gyfer hyfforddi athrawon oni bai bod modd hyfforddi myfyrwyr ar gyfer darparu addysg cyfrwng Cymraeg cynhwysfawr ar lefel eang. Nodwyd bod angen digon o diwtoriaid cyfrwng Cymraeg.

5.2. Roedd pryder mawr nad oedd ddim targedau o ran niferoedd sy'n gadael addysg gychwynnol yn gallu dysgu drwy'r Gymraeg. Cytunwyd nad oedd yn dderbyniol nad oes dim targedu o ran pynciau o brinder nac athrawon cyfrwng Cymraeg.

5.3. Nodwyd bod ysgoloriaethau lle bo prinder a'u bod ar gael ar gyfer y Gymraeg, ond mynegwyd pryder nad oes cymhelliant ariannol i aros yn y system addysg yng Nghymru wedi'r hyfforddiant cychwynnol.

5.4. Cytunwyd bod angen targedau statudol clir ac uchelgeisiol i gael canran cynyddol o'r gweithlu sy'n gallu:

- (i) dysgu'r Gymraeg fel pwnc; a
- (ii) addysgu drwy'r Gymraeg

Cytunwyd bod angen gweithredu ar y targedau hyn ar frys, o fis Medi flwyddyn nesaf: ni ellir fforddio rhagor o oedi.

6. Mesurau Perfformiad

6.1. Cytunwyd ei bod yn hanfodol bwysig cynnwys y Gymraeg fel mesur perfformiad ar gyfer pob ysgol, a hynny ar frys. Dywedwyd yn ogystal bod angen i gynnwys Cymraeg fod yn rhan hanfodol o'r Fagloriaeth.

6.2. Dywedwyd bod angen newid agwedd rhai athrawon; nodwyd gyda phryder bod gwersi Cymraeg mewn nifer o ysgolion yn digwydd drwy gyfrwng y Saesneg.

Rhagfyr 2016

12. Qualifications taken only by learners in Wales present a significantly less attractive proposition to commercial publishers than ones taken across the three-countries. As a consequence, the resources available to learners in Wales has narrowed. This effect is exacerbated for Welsh-medium resources. As a result, there needs to be a more effective and efficient mechanism for Welsh Government to work with others to

facilitate the equitable provision of teaching and learning resources. This can be realised through careful planning and early collaboration with stakeholders, including publishers and training organisations. The important lesson learnt from the current GCSE and A level reform programme is that the programme of change must allow sufficient time for 'whole system readiness' – this has not been possible in the current reforms due to parallel reforms in England.

Availability of Welsh-medium and bilingual qualifications

13. We recognise the importance of seeking a wide range of Welsh-medium and bilingual qualifications for learners in Wales. As a result, we offer a Welsh language grant to support awarding bodies in responding to demand for assessment through the medium of Welsh. Since actively promoting its availability, there has been a notable increase in applications. However, there is a limit to our resources to make these grants available and the awarding bodies' responsiveness to the financial stimulus.
14. One of the most significant barriers awarding bodies have identified to the provision of qualifications through the medium of Welsh is a lack of personnel who are able, or who feel confident enough, to assess qualifications through the medium of Welsh without translation. We are exploring possible mechanisms for awarding bodies to connect with individuals who can provide Welsh-medium and bilingual assessment and quality assurance services. However, this is a short term solution and does not address the wider workforce issues.
15. We look forward to discussing these matters further with the Committee in December.

Yours sincerely

Ann Evans
Chair

Philip Blaker
Chief Executive

1. Cynllunio'r gweithlu

- 1.1 Mae angen cofio pwysigrwydd cyfraniad gweithlu pob sector addysg er mwyn gwireddu gweledigaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.
- 1.2 Gyda'r addewid o gynnig 30 awr o ofal plant am ddim, bydd angen cynllunio'n ddi-oed i sicrhau y gellir darparu'r cynnig yn y Gymraeg, ac i hyrwyddo'r cynnig hwnnw. Bydd cydweithio gyda Mudiad Meithrin yn hanfodol i sicrhau bod gweithlu â sgiliau digonol yn ei le, gan gynnwys ehangu llwybrau hyfforddiant megis Cam wrth Gam, a llwybrau eraill, gan gynnwys cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn colegau addysg bellach.
- 1.3 Mae'r cyfnod cyn addysg orfodol, ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch a gweithlu gwasanaethau cymorth i ddisgyblion oll â chyfraniad allweddol ac mae angen datblygu sgiliau'r ymarferwyr yn y Gymraeg.
- 1.4 Mae angen ystyried pwysigrwydd gwella dealltwriaeth y gwasanaeth sifil am faterion y Gymraeg. Yn rhy aml nid yw'r Gymraeg yn cael ystyriaeth ddigonol na digon arbenigol wrth gynllunio strategaethau, polisiau a deddfwriaeth. Mae'r sefyllfa digon tebyg ar lefel Llywodraeth Leol.
- 1.5 Mae recriwtio'r niferoedd cywir a'r bobl gyda'r sgiliau sydd angen arnom i'r swyddi amrywiol hyn yn holl bwysig. Er mwyn gallu gwneud hyn yn effeithiol mae angen cael gwybodaeth drylwyr am natur y gweithlu presennol a chynllunio'n strategol gan gynnwys targedau a cherrig milltir i fesur llwyddiant dros amser. Mae hyn yn arbennig o bwysig at bwrpas ateb gofynion y Cwricwlwm newydd a

Strategaeth Miliwn a Siaradwyr Cymraeg. Mae angen sicrhau trosolwg a chynllunio strategol er mwyn gosod targedau clir ac uchelgeisiol ar gyfer:

- cynyddu niferoedd / canrannau myfyrwyr i ddilyn y cyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer addysgu ym mhob cyfnod allweddol a phob pwnc
- cynyddu nifer yn dilyn cwrs Cymraeg fel pwnc.
- Cynyddu niferoedd (trwy feithrin ei sgiliau) sydd yn hyderus i gyfrannu at greu ethos Cymreig mewn ysgolion.

1.6 Gellir dadlau bod y broblem o gynllunio'r gweithlu addysg yn broblem systemig hir dymor. Mae gormod yn cael ei adael i hap a damwain ar hyn o bryd. Hyderwn bydd y gwaith paratoi sydd wedi ei gychwyn gan y Llywodraeth ar gyfer casglu data yn dod â gwybodaeth fwy penodol am y gweithlu addysg, gan gynnwys lefel hyfedredd / cymwysterau Cymraeg a dyheadau'r gweithlu ar gyfer eu gyrfa. Mae'n bwysig defnyddio dull effeithiol, hwylus o gasglu data angenrheidiol ac i wneud hyn cyn gynted â phosib.

1.7 Yn y cyfamser, nes bod y system yn ei le ar gyfer casglu data mae angen gweithredu ar yr hyn rydym yn gwybod yn bendant, e.e.:

- nid ydym yn hyfforddi digon o athrawon i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg nac i arbenigo yn y Gymraeg fel pwnc
- mae'n ymddangos yn flynyddol nad yw'r Sefydliadau Addysg Uwch yn ymwybodol o'r niferoedd o fyfyrwyr sydd yn gallu siarad Cymraeg, os nad ydynt yn dilyn cwrs / cyrsiau cyfrwng Cymraeg
- mae 27% o athrawon sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn dweud eu bod yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (bydd angen llawer mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg na hyn er mwyn gwireddu'r weledigaeth)

- mae 33% o athrawon sydd wedi cofrestru gyda CGA yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg

- 1.8 Mae'r newidiadau i drefniadau Addysg Gychwynnol Athrawon a'r system achredu newydd yn cynnig cyfle. Gellir defnyddio'r system achredu i sicrhau bod llefydd cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc ar gael ac yn cael eu llenwi yn y sefydliadau addysg uwch / partneriaethau. Mae angen gosod targedau ar gyfer hyn a chynyddu'r niferoedd.
- 1.9 Yn anffodus nid yw'r ymgynghoriad am drefniadau newydd ar gyfer Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon yn achub y cyfle i bennu targedau. Nid yw'n cynnwys manylion am sut i sicrhau niferoedd digonol o gyfleoedd i ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg na gosod targedau ar gyfer denu myfyrwyr i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Gymraeg fel pwnc mewn sefydliadau addysg uwch / partneriaethau. Cred UCAC bod angen i bob SAU/partneriaeth gynnig llwybr cyfrwng Cymraeg ac amlinellu natur y llwybr, a'r gofynion o ran y meini prawf fel rhan o'r broses achredu.
- 1.10 Does dim byd yn y ddogfen ymgynghorol yn gosod y cyfrifoldeb dros fonitro cynnwys cyrsiau cyfrwng Cymraeg a cwotas niferoedd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn nwylo Corff Achredu. Mae hyn yn enghraifft o ddiffyg cyd-lynu ar draws polisïau a diffyg prif-ffrydio'r Gymraeg wrth gynllunio a chyflwyno newidiadau i'r gyfundrefn addysg. Rhaid peidio â cholli'r cyfle i greu cyfundrefn newydd Addysg Gychwynnol Athrawon bydd yn arwain at dargedau ar gyfer llefydd cyfrwng Cymraeg, siaradwyr cyfrwng Cymraeg a Chymraeg fel pwnc.
- 1.11 Dylai fod modd dilyn y cwrs yn gyfan gwbl ac yn rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen diffiniad llawer mwy eglur o'r hyn sy'n cael ei gyfrif yn gwrs 'cyfrwng Cymraeg' neu'n gwrs sy'n

cymhwyso athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; mi allai gwmpasu Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg Gymraeg Cenedlaethol er mwyn rhoi sicrwydd i gyflogwyr o'r medrau dan sylw; mae angen symud ymlaen o'r cynllun peilot ar fyrder.

1.12 Rhaid i ni gofio pwysigrwydd bod y sefydliadau addysg â darlithwyr / tiwtoriaid sydd yn gallu darparu elfennau'r cwrs / cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a bod yr asesu hefyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

1.13 O gynllunio'r ddarpariaeth yn well, a chreu darpariaeth fwy pwrpasol, mae angen mynd ati i recriwtio'n weithgar, gan gynnwys ymgyrchoedd marchnata, i ddenu'r niferoedd gofynnol o ymgeiswyr cymwys. Mae angen pwyslais ar ddenu siaradwyr Gymraeg gyda sgiliau Gymraeg da i'r proffesiwn. Mae lle i hybu addysgu fel gyrfa yn ein hysgolion cyfrwng Gymraeg yn gyffredinol a'n prifysgolion. Gellir hybu addysgu fel proffesiwn yn y prifysgolion gan dargedu myfyrwyr y Gymraeg fel pwnc a myfyrwyr sydd yn dilyn cyrsiau gradd cyfrwng Gymraeg.

1.14 Yn ôl Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru 'Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru, 2014/15' (27 Hydref 2016 SB 46/2016), o'r sawl a gwblhaodd cyrsiau HCA yng Nghymru yn 2013/14, roedd 20% wedi cwblhau cwrs "a oedd naill ai wedi eu galluogi i addysgu'n ddwyieithog neu wedi arwain at dystysgrif ffurfiol o addysg ddwyieithog". Roedd hyn 1% yn is nag yn 2013/14. Mae'n amlwg nad yw 20% yn mynd i fod yn ddigonol i gyflenwi ar y raddfa fydd ei angen, yn enwedig gan fod ansicrwydd ynghylch union natur mewnbwn ieithyddol y cyrsiau. Bydd angen pennu targedau twf, a strategaeth recriwtio uchelgeisiol.

2. Cefnogaeth i'r gweithlu: datblygiad proffesiynol parhaus

- 2.1 Mae angen darganfod beth yw dyheadau'r gweithlu presennol o ran gwella sgiliau Cymraeg / cyfleoedd defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chynllunio ac ariannu hyfforddiant o safon uchel i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Mae sawl categori o gefnogaeth debygol sydd angen a bydd angen teilwra cefnogaeth at anghenion yr unigolyn ond gwneud hynny'n strategol. Mae'n rhaid i unrhyw hyfforddiant ddigwydd tu fewn y diwrnod gwaith.
- 2.2 Gall fod rôl gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, yr ALL a'r Consortia i gefnogi gyda'r fath hyfforddiant.
- 2.3 Ar hyn o bryd mae 12,292 (33%) o athrawon sydd wedi cofrestru gyda CGA (Cyngor y gweithlu Addysg) yn dweud eu bod yn siaradwyr Cymraeg; mae 10,139 (27%) ohonynt yn nodi eu bod yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n debygol byddai'r 2000+ o athrawon hyn nad ydynt yn teimlo'n hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, yn awyddus i wella'i sgiliau fel bod modd iddynt wneud cyfraniad at naill ai Gymreigio ethos eu hysgol neu wneud ychydig o addysgu cyfrwng Cymraeg.
- 2.4 Bydd angen sicrhau bod modd adeiladu ar sgiliau Cymraeg y gweithlu dros gyfnod (yn ôl dymuniad yr unigolyn). Mae'n bosib byddai cyflwyno gwybodaeth i rai am y Gymraeg a'r disgwyliadau o ran hawliau disgyblion a rhieni o fudd. Mae'n bwysig torri lawr rhwystrau a pheidio â gelyniaethu pobl.
- 2.5 Mae'n bosib bydd rhai athrawon (sydd ar hyn o bryd yn y grŵp sylweddol sydd heb nodi unrhyw wybodaeth am eu gallu yn y Gymraeg wrth gofrestru gyda CGA) â rhywfaint o sgil ond yn hollol anhyderus. Gydag anogaeth efallai byddai modd datblygu eu sgiliau hwy.

- 2.6 Mae angen mynediad at hyfforddiant o safon uchel yn ystod pob cam o'r yrfa ac mae cyrsiau datblygu sgiliau Cymraeg a chysiau cyfrwng Cymraeg o safon uchel ar gyfer y gweithlu cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o hyn.
- 2.7 Mae'r Cynllun Sabothol wedi cael cryn lwyddiant (gweler 'Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011–2012 (Ionawr 2014)), a dylid edrych ar opsiynau ar gyfer ei ymestyn, gan gynnwys ar y cyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.
- 2.8 Prif wendid y Cynllun Sabothol fu'r anhawster i ryddhau athrawon o'r ysgolion, a hynny er bod telerau'r cynllun yn hael o ran tâl ar gyfer cyflenwi. Mae'n werth ystyried sut i gymell ysgolion i wella sgiliau ieithyddol eu staff, ac felly cynyddu eu parodrwydd i ganiatáu staff i fynychu'r Cynllun Sabothol.
- 2.9 Bydd angen ystyried cynnig amrywiol llwybrau a mathau o hyfforddiant, ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, er mwyn cyrraedd y nifer fwyaf posib o ymarferwyr, gan gynnwys cyrsiau ar-lein/dysgu o bell.
- 2.10 Yn yr un modd â phobl eraill sy'n dysgu'r iaith, neu'n gwella'u sgiliau, bydd angen cyfleoedd anffurfiol, cymdeithasol y tu allan i'r gweithle; cyfleoedd sydd o bosib yn agor drysau i gymunedau diddordeb gan gynnwys ar-lein. Mae cefnogaeth ar ôl dychwelyd i'r gweithle ar ôl bod ar gwrs iaith yn hollbwysig, ac mae angen cynllunio ar gyfer hynny – o fewn y gweithle a thu hwnt.
- 2.11 Gyda gwahaniaethau cynyddol rhwng systemau addysg Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, bydd angen ystyried yr angen am gyflwyniad o ryw fath, neu gwrs pontio ar gyfer y sawl sydd

wedi cymhwyso tu allan i Gymru sydd am ddod i weithio yma. Os felly, gellid cynnwys cyflwyniad i'r Gymraeg, o ran ymwybyddiaeth iaith, ac o ran sgiliau sylfaenol (neu fwy).

3. Cefnogaeth i'r gweithlu: adnoddau cyfrwng y Gymraeg / y Gymraeg fel pwnc

- 3.1 Mae adnoddau addysgiadol o safon ac ansawdd uchel yn hanfodol. Cyfeiriodd y Prif Weinidog at bwysigrwydd geiriaduron ac adnoddau digidol wrth lansio'r strategaeth newydd.
- 3.2 Mae angen mwy sylfaenol na hynny – am yr adnoddau sydd yn hanfodol ar gyfer addysgu cyrsiau TGAU /UG/U newydd. Ni ddylai'r gweithlu fod yn cyfieithu adnoddau oherwydd nid yw'r gwerslyfrau Cymraeg yn barod erbyn cychwyn addysgu'r manylebau newydd. Mae hyn yn creu llwyth gwaith aruthrol ac yn annheg ar y gweithlu a'r disgyblion. Mae angen cynllunio rhaglen gydag amserlen gadarn ar gyfer paratoi adnoddau i gyd-fynd â chysiau / cymwysterau newydd. Mae gan Cymwysterau Cymru rôl bwysig i chwarae yn sicrhau hyn.

4. Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg /newid Categori Iaith Ysgol – Symud ar hyd y Continwmm

- 4.1 Mae angen cynllun manwl, penodol ac uchelgeisiol, gyda champau gweithredu clir, targedau twf a chyllideb; bydd angen nodi'r prif bartneriaid a sicrhau bod cyfundrefn yn ei lle sy'n golygu eu bod nhw'n atebol i'r cynllun.
- 4.2 Bydd angen iddo gwmpasu'r blynyddoedd cynnar, ysgolion cyfrwng Cymraeg, ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion Saesneg, addysg ôl-16 mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith, dysgu gydol oes ac addysg uwch.
- 4.3 Mae angen sicrhau cefnogaeth i ysgolion gynllunio ar gyfer symud ar hyd y continwmm – o newid ethos ysgol i ychwanegu at

weithgareddau a dysgu cyfrwng Cymraeg; cynllunio'r gweithlu a chyfathrebu gyda rhieni.

- 4.4 Mae rhieni a llywodraethwyr yn grwpiau pwysig a dylanwadol. Mae cyfleoedd i ddarparu gwybodaeth, arweiniad a hyd yn oed hyfforddiant i lywodraethwyr, ac mae hynny'n cynnig cyfle o ran trosglwyddo negeseuon a gwybodaeth allweddol. Gyda newidiadau i'r rheoliadau sy'n rheoli cyrff llywodraethu ysgolion yn yr arfaeth, a phwyslais newydd ar sicrhau lefelau addas o arbenigedd, gellid sicrhau bod dealltwriaeth o werth, pwysigrwydd a rôl y Gymraeg (a hynny o fewn cyd-destun continwwm ieithyddol ysgolion) yn un o'r meysydd hynny.

5. Strwythurau o amgylch yr ysgol

- 5.1 Dylid sicrhau bod modd i weinyddiaeth fewnol ysgolion ddigwydd yn y Gymraeg – o safbwynt perthynas yr ysgol â'r Awdurdod Lleol, y consortiwm rhanbarthol, Llywodraeth Cymru, Estyn ac unrhyw gyrff/asiantaethau swyddogol eraill.
- 5.2 O ran y corff llywodraethol, dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod modd i'r cyfarfodydd ddigwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, ble mae'r ysgol yn dymuno gwneud hynny, drwy ddarparu cyfieithu (ar y pryd yn y cyfarfod; a chyfieithu unrhyw ddogfennaeth berthnasol) ar gyfer unrhyw aelodau o'r corff nad ydynt yn medru'r Gymraeg.
- 5.3 Rydym eisoes wedi crybwyll pwysigrwydd cynnig gofal plant yn y Gymraeg. Mae hynny'r un mor wir ar gyfer gwasanaethau cofleidiol eraill, megis clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, clybiau gwyliau, gweithgareddau allgyrsiol (trwy'r ysgol, ac eraill). Mae angen ystyried y gweithwyr hynny a'u rôl a sut i ddatblygu eu gallu i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg.

UCAC

Tachwedd 2016

Document is Restricted

Cynnwys

1. Crynodeb o werthusiad Wavehill o brosiect Gweithio'n Gymraeg Urdd Gobaith Cymru a ddarparwyd mewn cydweithrediad ffurfiol gyda Gyrfa Cymru – cyhoeddwyd Mai 2014 Cyfnod gweithredu'r peilot – Gorffennaf 2013 hyd at fis Mawrth 2014.....	1
2. Data o aelodaeth yr Urdd fesul rhanbarth ar sail iaith	6
3. Gwerthusiad o gynllun Llwybrau i'r Brig Urdd Gobaith Cymru – Gan Wavehill Mawrth 2013 – Gweithredol 2009 hyd at 2013.....	7
4. Adroddiad ar Waith Cymraeg pob Dydd –2015 –2016.....	8

1. Crynodeb o werthusiad Wavehill o brosiect Gweithio'n Gymraeg Urdd Gobaith Cymru a ddarparwyd mewn cydweithrediad ffurfiol gyda Gyrfa Cymru - cyhoeddwyd Mai 2014 Cyfnod gweithredu'r peilot - Gorffennaf 2013 hyd at fis Mawrth 2014

Roedd 'Gweithio'n Gymraeg' yn brosiect a weithredwyd gan Urdd Gobaith Cymru. Roedd yn targedu pobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial ac er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud y mwyaf o'r Gymraeg wrth ddod yn rhan o'r byd gwaith. Roedd prosiect yn targedu pobl ifanc oedd mewn risg o ddatgysylltu eu hunain o fyd addysg, sydd heb reolaeth yrfaol dda a/neu sydd wedi eu cyfeirio at gymorth ychwanegol gan Yrfa Cymru a/neu'r Ysgol.

Prif ffocws y prosiect oedd sicrhau bod darpariaeth anffurfiol megis gweithgareddau allgyrsiol, sesiynau ieithyddol ychwanegol a darparu achrediadau (yn uniongyrchol neu wedi ei chyd-drefnu ag eraill) cyfrwng

Cymraeg ar gael i bobl ifanc sydd wedi derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Treuliyd amser, yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel sgil economaidd ac fel mantais wrth geisio am waith, cynyddu'r nifer o leoliadau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i bobl ifanc dderbyn profiad gwaith. Disgrifiwyd y prosiect fel un arloesol a chreadigol a chafodd ei beilota mewn chwe ardal amrywiol yng Nghymru.

Er sawl ymgais at Lywodraeth Cymru a'i awgrym i ymgeisio ar gyfer arian WEFO a chreu prosiect cenedlaethol ar y cyd gyda Gyrfa Cymru, nid oedd ganddynt yr awydd i gyllido ymhellach.

Allbynnau'r Prosiect

- Cyflogwyd 6 aelod o staff i wireddu amcanion y prosiect.
- Denwyd 914 o bobl ifanc i fod yn rhan o'r prosiect a chofnodi gwelliant un lefel mewn allbwn
- meddal.
- Cofnodwyd 656 ar gyfer mesur cynnydd drwy ddull 'Dangos Llwyddiant' gan ystyried gwelliant yn y canlynol; sgiliau addas a pherthnasol ar gyfer cyflogaeth, gweithio gydag eraill, parch at eraill, ysgogiad ac annibyniaeth, a gallu a hyder i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Cydweithiwyd gydag 11 o sefydliadau addysgol i weithredu'r prosiect – roedd y rhain yn ysgolion a nodwyd gan Gyrfa Cymru fel rhai oedd angen cymorth ychwanegol yn y Gymraeg a sgiliau cyflogadwyedd
- Cynhaliwyd sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith dwys i 670 o bobl ifanc er mwyn codi gwerth y
- Gymraeg, drwy ystyried ei gwerth yn y byd gwaith ac yn gymdeithasol.
- Achredwyd 423 o bobl ifanc fel rhan o'r prosiect.

Yn yr adroddiad (wedi atodi) tudalennau 26–28 – gweler y 4 tabl canlynol

Tabl 2: Proffil leithyddol y Bobl Ifanc a Gyfranogodd yn y Prosiect yn ôl Ardal:

Tabl 3: Defnydd leithyddol Pobl Ifanc Gyda'u Ffrindiau

Tabl 4: Pwysigrwydd y Gymraeg i'r Dyfodol ym Marn y Bobl Ifanc cyn y Prosiect (%)

Tabl 5: Pwysigrwydd y Gymraeg i'r Dyfodol ym Marn y Bobl Ifanc ar ôl y Prosiect (%)

Roedd y Gweithio'n Gymraeg wedi llwyddo i newid ymddygiad ac agweddau er enghraifft

Hyder

“Roedd mwyafrif y bobl ifanc wedi mynegi eu bod yn “teimlo gymaint mwy hyderus,” wrth siarad Cymraeg ar ôl cymryd rhan yn y prosiect. Mynegodd un person ifanc mai “cwrteisi ac nid lifestyle,” oedd siarad Cymraeg cyn cymryd rhan, ond fod hyn bellach wedi newid a'u bod “yn ei defnyddio lot, lot mwy nawr.” Yn benodol, roedd nifer o'r bobl ifanc yn teimlo nad oedd llawer o bwrpas i ddefnyddio'r iaith heblaw am yn yr ysgol, ond erbyn hyn eu bod yn teimlo “bod llawer mwy o gyfleoedd ychwanegol oherwydd y prosiect a dysgu sut i siarad Cymraeg gwell.”

Cyfathrebu

Drwy ymgysylltu a'r bobl ifanc a'u hannog i gymryd rhan yn y gweithgareddau, roedd nifer o'r bobl ifanc yn “dysgu sut i siarad gyda phobol yn well” a sut i gyfathrebu ymysg ei gilydd yn ogystal. Gellir dadlau bod hyn o ganlyniad i fagu gwell hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau tu mewn a thu allan i'r ysgol oedd yn eu gorfodi i gyfathrebu gydag eraill megis cyrsiau awyr agored, cymhwyster gwaith ieuenctid a'r achrediadau'n gyffredinol. Mae hyn hefyd yn ffactor mae cyflogwyr yn parchu ac yn chwilio amdano mewn pobl ifanc.

Mynegodd un person ifanc ei fod yn “teimlo fel esiamp! dda i ddisgyblion eraill yr ysgol, yn enwedig y rhai iau,” a bod y profiadau newydd wedi galluogi iddo gyfathrebu’n well gydag athrawon a’i gyfoedion.

Cyfleoedd ac Opsiynau Newydd

“Doedd dim pwrpas i fi siarad Cymraeg cynt, a ni just fel, beth yw’r pwynt rili, ond pan ti’n gweld petha fatha jobsys a gyrfaoedd a stwff sydd ar gael allan yna i bobl sy’n siarad Cymraeg, a bod cyflogwyr yn licio gweld Cymraeg ar CV ti, mae’n gwneud i ti sylweddoli.”

Datblygu Sgiliau

Mae prosiect Gweithio’n Gymraeg wedi darparu cyfres o sgiliau newydd iddynt allu eu datblygu, cyfle nad oedd ar gael o’r blaen iddynt. Fel yr amlygwyd gan un person ifanc:

“Doedd gan yr athrawon dim amser i fi, doeddwn i ddim yn neud y gwaith yn y dosbarth ac ro’n i just yn chwarae o gwmpas rili. Dwi di cal neud pethau newydd nawr sy’n golygu fydd gen i rhywbeth i roi ar CV fi.”

Newid Agwedd

Cafwyd newid agwedd yn ogystal tuag at y Gymraeg fel sgil gwaith neu sgil gwerthfawr a defnyddiol ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, ac fel yr amlygodd un person ifanc:

“Doeddwn i ddim yn siarad Cymraeg lot o’r blaen. Do ni’m yn gweld y pwynt rili, everyone understands English don’t they! Ond dwi siarad o lot mwy nawr ac yn meddwl ella fydd mwy o siawns i fi gal joban ar diwedd pob dim.”

Sylwadau Rhandeiliaid

- Amlygwyd yn bennaf bod pobl ifanc wedi cael y cyfle i “fod yn rhan o weithgareddau tu allan i’r bocs”.
- Y bobl ifanc wedi cael “hyder” wrth weithio gyda phobl ifanc eraill a chyda mudiadau oedd yn darparu gwasanaethau eraill.

- Awgrymwyd bod gwerth y prosiect gymaint yn fwy oherwydd bod mudiadau yn cydweithio er mwyn darparu gwasanaeth mwy cyflawn nad oedd yn cael ei ddyblygu mewn unrhyw faes arall.
- Roedd gallu cydweithio ar weithgareddau megis ysgrifennu CV, cyfweiliadau ffug ac achrediadau yn effeithiol iawn.
- Awgrymwyd bod y prosiect, unwaith yn rhagor, wedi llwyddo i gyfuno dulliau addysg ieuenctid anffurfiol a dulliau addysg mwy ffurfiol yr ysgol, drwy gydweithio a threfnu gweithgareddau effeithiol.

“Mae’r swyddogion wedi bod yn wych. Mae nhw wedi neud i ni feddwl am ffyrdd o gael pobl ifanc i gymryd rhan mewn pethau gwahanol a sut i engagio a nhw rili. Mae’n anodd oherwydd dim ond hyn a hyn o oriau sydd mewn diwrnod a ti methu rhoi amser i bawb.

Mae’r Urdd wedi dangos i ni fod o’n bosib rhoi’r cyfrifoldeb i aelodau eraill o’r chweched i edrych ar ôl a helpu disgyblion eraill.”

Daeth 2 argymhelliad o’r adroddiad, ac mae’r Urdd yn parhau i weithio ar y rhain.

- Bod y berthynas rhwng yr Urdd a mudiadau eraill sydd yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc yn cael ei gynnal ac yn parhau i fod o fudd i bobl ifanc o safbwynt cyfleoedd a chefnogaeth yn gyffredinol.
- Awgrymwyd y byddai buddsoddiad hirdymor, ychwanegol yn gwireddu’r Strategaeth
- Ieuenctid ymhellach, drwy hybu pobl ifanc i ystyried eu sgiliau cyflogadwyedd a’r
- cyfleoedd posib ar eu cyfer. Yn ogystal, byddai’n brosiect effeithiol wrth geisio pontio rhwng sefydliadau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol.

2. Data o aelodaeth yr Urdd fesul rhanbarth ar sail iaith

	Iaith		
	Dysgwyr	Cymraeg	Cyfanswm
Rhanbarth	Aelodau	Aelodau	Aelodau
Ynys Môn	445	2,432	2,877
Eryri	182	4,240	4,422
Meirionnydd	138	1,734	1,872
Conwy	1,118	1,627	2,745
Dinbych	1,054	1,397	2,451
Fflint a Wrecsam	2,091	1,494	3,585
Maldwyn	1,207	1,077	2,284
Brycheiniog a Maesymfed	187	351	538
Ceredigion	843	3,630	4,473
Gorllewin Myrddin	533	2,387	2,920
Dwyrain Myrddin	975	2,138	3,113
Penfro	1,499	1,541	3,040
Gorllewin Morgannwg	988	2,320	3,308
Morgannwg Ganol	1,638	2,001	3,639
Cymoedd Morgannwg	1,232	1,348	2,580
Caerdydd a'r Fro	964	3,614	4,578
Gwent	2,521	2,252	4,773
Tu allan i Gymru	31	89	120
	<i>17,646</i>	<i>35,672</i>	<i>53,318</i>

3. Gwerthusiad o gynllun Llwybrau i'r Brig Urdd Gobaith Cymru – Gan Wavehill Mawrth 2013 – Gweithredol 2009 hyd at 2013

Cyflwyniad

Nod cynllun Llwybrau i'r Brig yr Urdd oedd gwella sgiliau pobl ifanc yn y Gymraeg a chodi eu dyheadau. Roedd yn rhoi'r cyfle i'r bobl ifanc oedd yn cymryd rhan i feithrin sgiliau oedd yn gysylltiedig â byd gwaith, ynghyd â gwella hyder pobl ifanc er mwyn iddynt symud ymlaen yn hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg i addysg uwch a chyflogaeth yn rhwyddach.

Allbynnau'r cynllun

Gwariant o £4.3 miliwn (gan gynnwys £2.1 m o arian Ewropeaidd)

5,676 o bobl ifanc wedi eu cynorthwyo

1,801 o gyfranogwyr 11–13 mlwydd oed

3,875 o gyfranogwyr 14–19 mlwydd oed

Ar gyfartaledd, gwariant o £744 fesul cyfranogwr

2,056 o bobl ifanc wedi ennill cymhwyster

Canfyddiadau'r gwerthusiad

Mae tystiolaeth fod canran uchel o'r cyfranogwyr y cynllun wedi elwa o'r profiad, gan gynnwys:

- Y data a gasglwyd o'r holiadur a ddosbarthwyd i gyfranogwyr wrth i'w hamser gyda'r cynllun ddod i ben (1,182 o ymatebion) sy'n dangos bod y mwyafrif helaeth (75%) yn credu bod cymryd rhan wedi bod o ryw fantais iddynt (er bod natur y fantais honno yn aneglur);
- Y data ar gyfer 1,443 o gyfranogwyr sydd yng nghronfa ddata Dangos Llwyddiant² y cynllun sy'n dangos bod newid positif wedi'i gofnodi ar gyfartaledd gyfer pob un o'r sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol sydd yn y fframwaith.
- Astudiaethau achos ar gyfer unigolion sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun³.

Mae barn staff a rhanddeiliaid yn cyd-fynd â'r uchod, ond yr effaith fwyaf amlwg iddynt hwy oedd datblygiad hyder y cyfranogwyr a oedd wedi cymryd rhan. Roeddent hefyd o'r farn fod y cynllun wedi cyflawni pob un o'r amcanion yng nghynllun busnes y cynllun.

Dangosodd y gwerthusiad bod 25% o gyfranogwyr y cynllun yn byw mewn ward sydd yn yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a 47% yn byw yn y 40% mwyaf difreintiedig (yn ôl Malc). Mae'r ffaith fod 25% o gyfranogwyr

cynllun Llwybrau i'r Brig yr Urdd yn dod o'r wardiau 20% mwyaf difreintiedig yn awgrymu bod y cynllun wedi llwyddo i ryw raddau i ymgysylltu â'r rheini sydd fwyaf mewn perygl.

Roedd staff a rhanddeiliaid allanol yn fwyaf cadarnhaol ynglŷn â'r amcan i gynyddu nifer y profiadau i bobl ifanc sy'n cael eu hachredu trwy gyfrwng y Gymraeg, amcan sydd yn amlwg yn bwysig o safbwynt yr Urdd.

Dengys y data fod canran uchel iawn o'r cyfranogwyr yn gallu deall (94%), siarad (90%), darllen (90%) ac ysgrifennu (90%) yn y Gymraeg ac yn amlwg nid yw hyn yn annisgwyl. Ond, mae'n ddiddorol bod 58% **wedi dewis Saesneg fel yr iaith y byddent yn dymuno derbyn unrhyw ohebiaeth ynddi**. Awgryma hyn fod y cynllun wedi gallu ymgysylltu â phobl ifanc sydd yn gallu'r Gymraeg ond sy'n dewis peidio â'i defnyddio iaith o ddydd i ddydd. Eto, mae hyn yn bwysig o bersbectif gallu'r cynllun i helpu i gyflawni amcanion yr Urdd. Roedd cyfweiliadau â rhanddeiliaid allanol yn awgrymu bod y cynllun wedi dechrau newid delwedd rhai pobl o'r Urdd a'r gweithgareddau y mae'r mudiad yn eu cynnig/hybu mewn ffordd bositif

4. Adroddiad ar Waith Cymraeg pob Dydd -2015 -2016

Gweler yr adroddiad – wedi atodi

Crynodeb

Nod gweithgareddau Cymraeg Bob Dydd yw cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg yn allgyrsiol.

Llwyddwyd i gyflawni'r holl ddeilliannau a nodwyd.

Deilliannau:

- 15+ o ddysgwyr TGAU, UG a SU Cymraeg yn fwy hyderus i siarad Cymraeg tu allan i'r gwersi.

- 15+ o ddysgwyr TGAU, UG a SU Cymraeg yn gwneud defnydd ehangach o'u sgiliau iaith Gymraeg.
- 15+ o ddysgwyr TGAU, UG a SU Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg gyda disgyblion eraill yr ysgol.
- Cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis TGAU Cymraeg ail iaith cwrs llawn (ble bo'n ddewisol) a'r nifer sy'n astudio UG a Safon Uwch Cymraeg ail iaith.

Diwedd

Contents

Contents	1
1. Summary of Wavehill's evaluation of Urdd Gobaith Cymru's Gweithio'n Gymraeg project, run in formal co-operation with Careers Wales – published in May 2014; Pilot implementation period – July 2013 until March 2014	1
2. Urdd membership data by region, based on language	6
3. Evaluation of Urdd Gobaith Cymru's Routes to the Summit (Llwybrau i'r Brig) scheme – conducted by Wavehill in March 2013 – operational between 2009 and 2013.....	7
4. Report on work relating to the Welsh Everyday project – 2015–2016	9

1. Summary of Wavehill's evaluation of Urdd Gobaith Cymru's Gweithio'n Gymraeg project, run in formal co-operation with Careers Wales - published in May 2014; Pilot implementation period - July 2013 until March 2014

Gweithio'n Gymraeg was a project run by Urdd Gobaith Cymru. It was aimed at young people aged between 14 and 19, with the goal of ensuring that they could fulfil their potential and make the best use of the Welsh language in entering the world of work. The project targeted young people who were at risk of disengaging from education, who were not managing their careers well and/or who had been referred for additional support by Careers Wales and/or their school.

The main focus of the project was ensuring that informal Welsh-medium provision, such as extra-curricular activities, additional language sessions and the provision of accreditations (either directly or in conjunction with

others) was available to young people who had received their education through the medium of Welsh. Time was spent on promoting the use of the Welsh language as an economic skill and as a selling point when applying for work, and on increasing the number of Welsh-medium settings where young people could gain work experience. The project, which was described as innovative and creative, was piloted in six diverse areas of Wales.

In spite of several requests to the Welsh Government, and a suggestion that it should apply for WEFO funding to create a joint national project with Careers Wales, there was no desire to provide further funding.

Project outputs

- Six members of staff were employed to deliver the project's objectives.
- 914 young people were moved to take part in the project and to record a one-level improvement in soft outputs.
- 656 signed up to measure their progress through the 'Dangos Llwyddiant' (Demonstrating Success) approach, which considered improvements in the following areas: appropriate and relevant skills for employment, working with others, respecting others, motivation and independence, and the ability and confidence to use Welsh.
- There was collaboration with 11 educational institutions to implement the project. These were schools identified by Careers Wales as needing extra help with the Welsh language and skills relating to employability.
- Intensive language-awareness sessions were held for 670 young people in order to emphasise the value of the Welsh language, by discussing its value in the world of work and in society.
- 423 young people were accredited as part of the project.

Pages 26–28 of the report (attached) feature the following four tables:

Table 2: Linguistic Profile of Young People who Participated in the Project, by Area

Table 3: Young People's Language Usage with Friends

Table 4: Pre-project Views of Young People on the Importance of Welsh in the Future (%)

Table 5: Post-project Views of Young People on the Importance of Welsh in the Future (%)

Gweithio'n Gymraeg has managed to change behaviours and attitudes. For example:

Confidence

The majority of young people said that they felt "so much more confident" when speaking Welsh after taking part in the project. One young person said that speaking Welsh before the project was a matter of "courtesy and not lifestyle", but that this situation had now changed and that they would "use it a lot, lot more now." In particular, a number of young people said that they felt there had been little point in using the language other than at school, but that they now felt there were "many additional opportunities because of the project and because of learning how to speak better Welsh."

Communication

By engaging with young people and encouraging them to participate in the activities, the project enabled a number of young people to "learn how to speak to people better" and also how to communicate with each other. It could be argued that this was due to improved confidence in using Welsh and the fact that they took part in activities inside and outside school where they were compelled to communicate with others, such as outdoor courses, youth work qualifications and general types of accreditation. This is also something that employers respect and look for in young people.

One young person said that he felt as though he was “a good example to other school pupils, especially younger students,” and that the new experiences had allowed him to communicate better with his teachers and peers.

New Opportunities and Options

"There was no point in me speaking Welsh before, and I was just thinking, what's the point, really? But, when you see things like jobs and careers and stuff that's available out there for people who speak Welsh, and that employers like to see Welsh on your CV, you come to a realisation."

Skills development

The Gweithio'n Gymraeg project has provided participants with a range of new skills that they can develop—an opportunity that was not previously available to them. As one young person noted:

"The teachers didn't have time for me. I didn't do the work in the classroom, and I was just messing around really. I've been allowed to do new things now, which means I have something to put on my CV."

Changing attitudes

There were also changing attitudes towards the Welsh language as a workplace skill, or as a skill that would be valuable and useful for the future. As one young person noted, for example:

"I did not speak much Welsh before. I didn't see the point, really. Everyone understands English, don't they?! But, I speak of a lot more Welsh now, and I think that maybe I have a better chance of getting a job at the end of it all."

Comments from stakeholders

- Attention was mainly drawn to the fact that young people had had the opportunity to "be a part of activities outside the box".
- The young people had gained "confidence" in working with other young people and with organisations that provide other services.

- It was suggested that the value of the project was so much greater because organisations were collaborating to provide a more complete service that was not being duplicated in any other area.
- Collaborating on activities such as CV writing, mock interviews and accreditation is very effective.
- It was suggested that the project had, once again, managed to combine informal approaches to youth education with the more formal approaches to education pursued at school, through collaboration and organising effective activities.

"The officials have been great. They've made us think about ways of getting young people to take part in different things and how to engage them, really. It's difficult because there are only so many hours in a day, and you can't give everyone time.

The Urdd has shown us that it's possible to give other members of the sixth form the responsibility of looking after and helping other pupils."

Two recommendations emanated from the report, and the Urdd is still working on these.

- The relationship between the Urdd and other organisations that provide services for young people is being maintained. It will continue to benefit young people in terms of opportunities and general support.
- It was suggested that additional long-term investment would deliver further elements of the Youth Strategy by encouraging young people to consider their employment skills and their potential opportunities. In addition, it would be an effective project in seeking to bridge the gap between statutory and voluntary youth work organisations.

2. Urdd membership data by region, based on language

	Language		
	Learners	Welsh	Total
Region	Members	Members	Members
Anglesey	445	2,432	2,877
Snowdonia	182	4,240	4,422
Meirionnydd	138	1,734	1,872
Conwy	1,118	1,627	2,745
Denbigh	1,054	1,397	2,451
Flintshire and Wrexham	2,091	1,494	3,585
Montgomery	1,207	1,077	2,284
Brecon and Radnor	187	351	538
Ceredigion	843	3,630	4,473
West Myrddin	533	2,387	2,920
East Myrddin	975	2,138	3,113
Pembroke	1,499	1,541	3,040
West Glamorgan	988	2,320	3,308
Mid Glamorgan	1,638	2,001	3,639
Glamorgan Valleys	1,232	1,348	2,580
Cardiff and the Vale	964	3,614	4,578
Gwent	2,521	2,252	4,773
Outside Wales	31	89	120
	<i>17,646</i>	<i>35,672</i>	<i>53,318</i>

3. Evaluation of Urdd Gobaith Cymru's Routes to the Summit (Llwybrau i'r Brig) scheme - conducted by Wavehill in March 2013 - operational between 2009 and 2013

Introduction

The aim of the Urdd's Routes to the Summit scheme was to improve young people's Welsh-language skills and raise their aspirations. It gave the young people who participated an opportunity to nurture skills related to the world of work. It also boosted the young people's confidence, so as to allow them

to move forward with confidence to higher education and employment more readily through the medium of Welsh.

Scheme outputs

Expenditure of £4.3 million (including £2.1 million in European funding)

5,676 young people received assistance

1,801 participants aged 11–13

3,875 participants aged 14–19

Average expenditure of £744 per participant

2,056 young people gained a qualification

Evaluation findings

There is evidence that a high percentage of scheme participants benefited from the experience, including:

- Data gathered from the questionnaire distributed among participants as their participation in the scheme drew to a close (1,182 responses), which show that the vast majority (75%) believed that participation had been of some benefit to them (although the nature of that benefit was unclear);
- Data relating to 1,443 participants that can be found in the database for the Dangos Llwyddiant scheme, which show that, on average, positive change was recorded in relation to each of the social and emotional skills and trends in the framework.
- Case studies relating to individuals who participated in the scheme.

The views of staff and stakeholders correlated with the above, but for them, the most obvious impact was the way in which the participants' confidence developed. They also expressed the view that all of the objectives in the scheme's business plan had been achieved.

The evaluation showed that 25% of the scheme participants were living in a ward categorised as being among the most deprived 20% of wards in Wales, while 47% of participants were living in a ward that was categorised among the most deprived 40% (according to the Welsh Index of Multiple Deprivation). The fact that 25% of participants in the Urdd's Routes to the Summit scheme were living in a ward categorised as being among the most deprived 20% suggests that the scheme achieved a degree of success in engaging with those most at risk.

Staff and external stakeholders **expressed the most positive views about the objective to increase the number of experiences for young people who are accredited through the medium of Welsh—an objective that is of obvious importance to the Urdd.**

The data show that a very high percentage of the participants were able to understand Welsh (94%), speak in Welsh (90%), read Welsh (90%) and write in Welsh (90%). Clearly, this is not unexpected. However, it is interesting that **58% chose English as the language in which they wished to receive correspondence.** This suggests that the scheme was able to engage with young people who can speak Welsh but who choose not to use the language on a daily basis. Again, this is important in terms of the scheme's ability to help achieve the Urdd's objectives. Interviews with external stakeholders suggest that, for some people, the scheme had started to change the image of the Urdd and the activities it offers/promotes in a positive way.

4. Report on work relating to the Welsh Everyday project - 2015-2016

See the attached report

Summary

The aim of activities in the Welsh Everyday project is to provide opportunities for pupils at English-medium secondary schools to broaden their extracurricular use of Welsh.

All of the outcomes identified were achieved.

Outcomes:

- 15+ GCSE, AS and A-level Welsh learners were more confident in terms of speaking Welsh outside the classroom.
- 15+ GCSE, AS and A-level Welsh learners were making more broad-ranging use of their Welsh-language skills.
- 15+ GCSE, AS and A-level Welsh learners were using Welsh with other pupils at their school.
- There was an increase in the number of pupils choosing the full-course GCSE in Welsh as a second language (wherever it was an option) and in the number studying Welsh as a second language at AS level and A-level.

Ends

- 1.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau ar y strategaeth uchod er mwyn cynorthwyo i lywio trywydd ymchwiliad y pwyllgor. Deallaf y byddaf yn derbyn gwahoddiad maes o law i gynnig tystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y strategaeth hon. Edrychaf ymlaen at y cyfle i wneud hynny.

2 Cyd-destun

- 2.1 Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

- 2.1 Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Darperir y sylwadau isod i'r perwyl hwnnw, ac yn unol â rôl y Comisiynydd fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r ymgynghoriad hwn effeithio arnynt.

- 2.2 Gofynna'r pwyllgor am sylwadau mewn ymateb i ddwy her benodol y bydd angen eu hwynebu wrth weithredu strategaeth ar gyfer y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf. Dyma gyflwyno sylwadau ar yr heriau penodol hynny. Rwyf wedi darparu sylwadau i Lywodraeth Cymru ar y strategaeth yn ei chyfanrwydd. Mae'r sylwadau hynny ar gael ar ein gwefan. Hyderaf y bydd yr holl sylwadau hyn o ddiddordeb ac o ddefnydd.

3. Gwella'r modd yr ydym yn cynllunio'r gweithlu ac yn cefnogi ymarferwyr ym mhob cyfnod yn y maes addysg

3.1 Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad

cynhwysfawr ar werthusiad a gynhaliwyd o'i Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Nodir o fewn adran 'datblygu'r gweithlu' yr adroddiad hwnnw rai casgliadau ynghylch llwyddiant I fynd i'r afael â'r her o gynllunio'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg. Nodir:

- Na wnaeth y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gyfrannu'n arwyddocaol at gynyddu màs critigol y gweithlu cyfrwng Cymraeg.
- Nad yw'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon a ddefnyddir yng Nghymru er mwyn pennu nifer o lefydd ar raglenni Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru yn llwyddo i flaengynllunio'r gweithlu fydd ei angen ar y sector addysg cyfrwng Cymraeg.
- Nad yw Cyngor y Gweithlu Addysg yn casglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg athrawon mewn ffordd systematig, a bod hynny'n rhwystr i gynllunio'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg yn effeithiol.

3.2 Adlewyrchir rhai o ganfyddiadau'r adroddiad hwnnw yn adran 6.9.6 yr Adroddiad 5– mlynedd a gyhoeddais yn ddiweddar ar sefyllfa'r iaith Gymraeg, sy'n trafod heriau I ddatblygu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg. Cyflwynwyd copi o'r adroddiad hwnnw i'r pwyllgor. Hyderaf y bydd cynnwys yr adroddiadau hyn o gymorth i'r pwyllgor wrth gynnal yr ymchwiliad hwn.

3.3 Amlygaf yn fy adroddiad yr heriau sylweddol iawn sy'n wynebu'r sector cyn-statudol cyfrwng Cymraeg, yn enwedig o ran datblygu a chadw'r gweithlu. Mae cynllun Cam wrth Gam y Mudiad Meithrin yn hyfforddi unigolion i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sector gofal. Er hynny, mae'n hysbys bod prinder sylweddol mewn gofawyr sy'n medru gwasanaethu trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae darparwyr yn parhau i'w chael yn anodd i recriwtio a chadw siaradwyr Cymraeg. Wrth symud at

gynnig 30 awr o ofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio, bydd angen buddsoddiad helaeth er mwyn sicrhau gweithlu gofal plant sy'n medru darparu'r holl oriau hynny yn Gymraeg ymhob rhan o Gymru.

- 3.4 Gwyddys bod diffyg athrawon ar gyfer addysgu rhai pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft mathemateg a gwyddoniaeth, yn enwedig yn y sector uwchradd. Er mwyn mynd i'r afael â hynny, bydd angen cryfhau'r cyswllt rhwng anghenion y gweithlu addysg, gweithgareddau'r prifysgolion a'r cyngor gyrfaol a roddir i ddisgyblion ysgol a myfyrwyr. Lle bo prinder siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu, mae'n hanfodol i ysgolion a phrifysgolion geisio denu siaradwyr Cymraeg I ddilyn cyrsiau perthnasol er mwyn llenwi'r bylchau hynny. Amlyga'r adroddiad ar y gwerthusiad o Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru nad oes cyswllt digon cadarn ar hyn o bryd rhwng anghenion y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg a blaenoriaethau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
- 3.5 Bu rhai ymdrechion i fynd i'r afael â'r diffyg athrawon Cymraeg i addysgu pynciau penodol. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cymhelliant ariannol I fyfyrwyr ddilyn y cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion o fewn pynciau lle mae prinder. Mae cynllun y 'Cyfnod Sabothol' yn enghraifft arall o weithredu cadarnhaol er mwyn llenwi'r bylchau yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg. Er yr ymdrechion clodwiw hyn, ymddengys o dystiolaeth a gyhoeddwyd gan sefydliadau megis CYDAG bod bylchau o hyd a bod angen datblygu cynlluniau ac ymyrraeth o'r newydd er mwyn cau'r bylchau hyn.
- 3.6 Noda fy Adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r iaith Gymraeg brinder sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu addysg ôl-16. Mae'r dystiolaeth ar hynny yn amlygu diffyg defnydd sylweddol o sgiliau Cymraeg y gweithlu o fewn y sector hwn. Er enghraifft, dengys data'r Llywodraeth ar gyfer 2015 bod 9.4% o staff academaidd ein prifysgolion yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mai 61% yn unig ohonynt sy'n gwneud hynny. Amlyga


hynny gyfle i fanteisio'n well ar y sgiliau Cymraeg sydd eisoes ar gael o fewn gweithlu'r sector hwn.

- 3.7 Fel yr awgryma gylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn, mae cynnig cefnogaeth I athrawon addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg fel ei gilydd yn elfen hollbwysig o ddarpariaeth addysgol effeithiol. Bydd aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol o'r sylw cyhoeddus diweddar i ddiffyg gwrslyfrau Cymraeg i gefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg, i effeithiau andwyol hynny ar ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r pwysau ychwanegol ar athrawon o orfod cyfieithu gwrslyfrau Saesneg i'r Gymraeg eu hunain. Mae CYDAG wedi ymchwilio i'r broblem hon ac wedi adnabod diffyg gwrslyfrau ac adnoddau dysgu Cymraeg ar gyfer nifer sylweddol o gymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch. Cyflwynwyd y canfyddiadau hynny i Lywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru ac anogaf y pwyllgor i roi sylw i'r dystiolaeth hon wrth ystyried y gefnogaeth sydd ar gael i'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg.

4. Sicrhau gweithlu digonol ar gyfer addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu Cymraeg fel pwnc

- 4.1 Er mwyn sicrhau gweithlu dwyieithog i'r dyfodol, ar gyfer y sector addysg a phob sector cyflogaeth arall, byddai cynyddu'n sylweddol nifer y plant ifanc sy'n derbyn eu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg yn gam rhesymegol. Mae dystiolaeth yr arolwg Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru 2013-15 yn dangos cydberthynas rhwng rhuglder a pha mor gynnar mewn bywyd mae rhywun yn dysgu'r Gymraeg. Os am greu mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n medru hyfforddi a chymhwyso yn y dyfodol i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sector addysg a sectorau cyflogaeth eraill, bydd rhaid yn gyntaf gynyddu'r ddarpariaeth gofal cyfrwng Cymraeg.
- 4.2 Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd llai na chwarter o bobl ifanc 15-24 oed yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg ac wrth edrych ar y siart isod gwelir nad yw'r cyfran hwnnw wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Amlyga'r siart ein bod yn colli siaradwyr Cymraeg wrth iddynt adael yr ysgol.




